# Adroddiad yr Adolygiad o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Cadw

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith a gafodd ei wneud i adolygu'r berthynas rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae'n dod i'r casgliad bod angen gwneud rhagor o waith manwl er mwyn nodi a chyflwyno'r buddion posibl, ac yna ymgynghori â'r sector amgylchedd hanesyddol ehangach yng Nghymru a'i bartneriaid.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad y gallai uno'r ddau sefydliad fod yn fodd o ddarparu budd hirdymor i'r sector ac i bobl Cymru, ond y byddai angen gwneud rhagor o waith i ystyried y cynnig hwn, gan ganolbwyntio ar gostau trosiannol a hirdymor manwl. Hefyd, teimlodd rhai aelodau o'r gweithgor fod angen darparu sicrwydd ychwanegol ynglŷn â sut y gellir diogelu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol. Dewis y gweithgor oedd darparu diogelwch deddfwriaethol.

Byddai cydweithio agosach ar unwaith yn fuddiol, a gellid cyflawni hyn heb fuddsoddiad neu aflonyddwch mawr, fel y nodwyd yn y trafodaethau manwl a gynhaliwyd fel rhan o'r ymarferiad hwn. Byddai'r manteision mwy arwyddocaol o gydweithio'n agosach yn deillio o brosiectau a gweithgareddau newydd ar y cyd, ond ni fyddai modd sicrhau'r manteision hyn heb gyllid ychwanegol neu ailgyfeirio cyllid o waith presennol.

Mae manylion yr opsiynau sydd wedi'u hystyried a chrynodebau o'r ymgynghoriadau â staff a rhanddeiliaid allanol wedi'u cynnwys yn y testun ac yn yr Atodiadau i'r Adroddiad.

Cyflwynir yr Adroddiad yng nghyd-destun datganiad Cyllideb 2026–2027, gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf 2025.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53099, ISBN digidol 978-1-83745-055-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Byrfoddau | 4 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Cyd-destun strategol | 6 |
| Methodoleg yr Adolygiad | 9 |
| Barn rhanddeiliaid | 11 |
| Asesiad cryno | 14 |
| Casgliad | 20 |
| Atodiad 1: Cylch Gorchwyl y Gweithgor a'r Aelodaeth | 21 |
| Atodiad 2: Swyddogaethau Cadw a'r Comisiwn Brenhinol | 23 |
| Atodiad 3: Papur a ddarparwyd ar gyfer gweithdai allanol | 25 |
| Atodiad 4: Adborth o weithdai staff | 30 |
| Atodiad 5: Crynodeb o adborth rhanddeiliaid allanol o'r Gweithdai | 32 |
| Atodiad 6: Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru | 38 |
| Atodiad 7: Cydweithio agosach | 46 |

Adran 1

# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru | CHCC |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | Comisiwn Brenhinol |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol | NLHF |
| Cronfa Ddata Asedau Hanesyddol | HAD |
| Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau | SWOT |
| Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau | AHRC |

Adran 2

# Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2023 cyhoeddwyd adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu Cadw. Roedd yn cynnwys yr argymhelliad canlynol:

*Dylid cynnal adolygiad o'r berthynas rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol, os yw'n dderbyniol i bob parti, gan y ddau sefydliad sy'n gweithio gyda'i gilydd. Tua wyth i naw mlynedd yn ôl, archwiliodd y ddau sefydliad synergeddau posibl o weithio'n agosach. Ers hynny, fel y gwelir yn yr adolygiad hwn, mae'r cyd-destun strategol wedi newid a byddai'n amserol i'r ddau sefydliad archwilio opsiynau ar gyfer datblygu'r synergeddau posibl sy'n bodoli rhyngddynt wrth gyflawni eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau a rennir i warchod, cofnodi a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r amgylchedd hanesyddol.*

Cafwyd ymateb ffurfiol i'r adroddiad ar 12 Mehefin 2024 gan yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, a gytunodd ei bod yn amserol archwilio'r berthynas rhwng y ddau sefydliad. Dywedodd:

*Mae angen i'r ddau sefydliad edrych yn ofalus ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau a nodi agweddau cyffredin a gwahanol ffyrdd o gyflawni. Mae angen ystyried pob opsiwn, o greu cysylltiad agosach rhwng rhaglenni gwaith neu eu cyfuno'n llawn, fel sydd wedi digwydd i sefydliadau tebyg yn Lloegr a'r Alban.*

Diben yr adolygiad presennol yw bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn drwy:

- fapio a manylu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau perthnasol y ddau sefydliad a nodi synergeddau allweddol
- archwilio opsiynau ar gyfer cynnal a gwella'r broses o gyflawni'r swyddogaethau a'r synergeddau a nodwyd
- gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru.

Amcanion yr adolygiad yw sicrhau bod y strwythur cywir ar waith erbyn mis Mawrth 2026 i gefnogi gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru, gan gynnwys Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC), gyda nodau ac amcanion a threfniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithlu cynaliadwy sydd â sgiliau arbenigol, wedi'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Cafwyd cadarnhad o gefnogaeth i'r gwaith a oedd ar y gweill mewn datganiad gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ar 11 Hydref 2024.

## Dulliau

Sefydlwyd gweithgor i oruchwylio'r adolygiad, gan gydweithio ochr yn ochr â grwpiau sy'n bwrw ymlaen ag argymhellion eraill o adolygiad trefniadau llywodraethu Cadw. Dechreuodd y gweithgor ei waith ym Medi 2024 a daeth i ben yn Awst 2025. Cynhaliwyd yr adolygiad mewn partneriaeth gymdeithasol gydag aelodau'r gweithgor gan gynnwys:

- Prif Swyddogion Gweithredol Cadw a'r Comisiwn Brenhinol
- Cadeiryddion presennol Bwrdd Cadw a'r Comisiwn Brenhinol
- Cynrychiolwyr undebau
- Arbenigwr treftadaeth annibynnol
- Tîm Partneriaeth y Comisiwn Brenhinol
- Swyddogion Llywodraeth Cymru.

Gweler Atodiad 1 am y Cylch Gorchwyl a'r aelodau.

Manteisiodd y Grŵp ar arbenigedd ehangach Cadw, y Comisiwn Brenhinol ac arbenigwyr Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng grwpiau gorchwyl a gorffen a oedd yn adrodd i'r gweithgor.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cyd-destun ar gyfer yr adolygiad, y gwaith sydd wedi cael ei wneud, a safbwyntiau terfynol y gweithgor.

Adran 3

# Cyd-destun strategol

Dros y degawd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad clir i wella'r gwaith o ddiogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Gwelwyd hyn am y tro cyntaf pan basiwyd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a gafodd ei chanmol fel y ddeddfwriaeth fwyaf blaengar o'r fath yn y DU. Fe wnaeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn, gan gyflwyno'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'r ddeddf hon yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, ac yn rhydd o gyfeiriadau at awdurdodaethau eraill y DU. Mae pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol bellach yn cydblethu â fframwaith deddfwriaethol Cymru, gan arddangos ymdrech barhaus Llywodraeth Cymru i warchod a gwella treftadaeth gyfoethog y genedl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gan yr amgylchedd hanesyddol rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol,* darpariaethau'r argyfwng hinsawdd, a'r *Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant*.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy osod saith nod llesiant ar gyfer cyrff cyhoeddus. Un o'r nodau hyn yw creu "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu". Mae'r amgylchedd hanesyddol yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r nod diwylliannol hwn trwy ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth gyfoethog Cymru, gan gynnwys adeiladau hanesyddol, henebion a thirweddau.

Er mwyn datblygu'r nod hwn, nododd Llywodraeth Cymru bum blaenoriaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru:

- 'Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol' — gan gynnwys y 131 o henebion sydd yng ngofal Cadw, darparu cyngor arbenigol i berchnogion eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, rhaglenni grant a mynediad ar-lein at gofnodion a gwybodaeth.
- 'Sicrhau bod sgiliau o bwys' — gan gynnwys prif ffrydio sgiliau crefft treftadaeth.
- 'Trysori a mwynhau ein hamgylchedd hanesyddol' — gan gynnwys annog mwy o bobl i ymweld â safleoedd hanesyddol, yn enwedig pobl ifanc, cydnabod rhwystrau cost a'r angen i wella mynediad ffisegol, a gweithio'n agosach gyda sefydliadau'r trydydd sector.
- 'Gwneud i'n hamgylchedd hanesyddol weithio er ein lles economaidd' — gan gynnwys buddsoddi yn safleoedd Cadw a chymorth ar gyfer safleoedd nad ydynt yng ngofal y wladwriaeth.
- 'Cyflenwi drwy bartneriaeth' — gan gynnwys cydweithio agosach rhwng Cadw, y Comisiwn Brenhinol, y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru, a bwrdd cynghori mewnol Cadw.

Mae'r *Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant* yn gosod blaenoriaethau ac uchelgeisiau hirdymor ar gyfer y sector diwylliant yn ehangach, a disgwylir iddynt lywio cyfeiriad strategol a buddsoddiad yn y sector diwylliant am y tymor canolig a'r hirdymor, hyd at oddeutu 2030. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Flaenoriaethau drafft yr haf diwethaf a chyhoeddwyd y fersiynau terfynol ar 20 Mai 2025.

Mae'r *Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant* yn cynnwys y tair blaenoriaeth ganlynol, pob un wedi'i chefnogi gan gyfres o uchelgeisiau:

- Mae diwylliant yn dod â phobl ynghyd
- Dathlu Cymru fel cenedl diwylliant
- Mae diwylliant yn gydnerth ac yn gynaliadwy.

Mae'r drydedd flaenoriaeth yn berthnasol iawn i'r adolygiad hwn. Mae uchelgeisiau yn y maes hwn yn cynnwys nifer o gyfeiriadau at gydweithio, gan gynnwys '12: Bydd cyrff diwylliant a threftadaeth yn cydweithio i fanteisio i'r eithaf ar botensial llawn timau a chasgliadau arbenigol...'

Mae'r cyd-destun economaidd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ynddo yn dylanwadu ar gyd-destun y polisi hwn. Yn ôl y dangosfwrdd rhyngweithiol sy'n dangos economi Cymru mewn rhifau: 'Yn gyffredinol, mae economi Cymru wedi newid yr un mor gyflym ag y mae economi'r DU yn ystod y tymor canolig ar draws amrediad o ddangosyddion.' Fodd bynnag, rhaid parhau'n ochlegar am y rhagolygon economaidd, gyda diffyg twf a chwyddiant uchel yn effeithio ar incwm aelwydydd[1]. Mae angen i'r sector weithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl i sicrhau gwerth am arian yng nghyd-destun pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus.

Mae'r sefyllfa economaidd wedi cyfrannu at y cyd-destun ariannol heriol y mae'r ddau sefydliad yn gweithio ynddo. Yn 2024–25, roedd y ddau sefydliad yn wynebu gostyngiad o 10.5% yn eu cyllid refeniw dangosol gan Lywodraeth Cymru, er bod hyn yn seiliedig ar gyllideb uwch am gyfnod cyfyngedig yn 2023–24 i gyflawni gweithgarwch o dan y Cytundeb Cydweithio. Erbyn 2025–26, roedd cyllideb y Comisiwn Brenhinol wedi dychwelyd i'r lefel cyn 2023–24. Mae'r ddau sefydliad yn rheoli cyllidebau heriol ac maen nhw eisoes wedi cyflwyno arbedion effeithlonrwydd wrth ail-negodi contractau, gostyngiadau wedi'u rheoli a rheolaethau llymach ar gyfer gwariant yn ôl disgresiwn.

Roedd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn ymateb i'r sefyllfa hon. I'r Comisiwn Brenhinol, roedd yr ymateb hwn yn cynnwys cyflwyno rhaglen o ddiswyddiadau gwirfoddol a gostyngiad sylweddol yn ei lefelau staffio.

## Gweithgareddau craidd Cadw a'r Comisiwn Brenhinol

**Cadw** yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Mae'n gweithio i greu amgylchedd hanesyddol hygyrch sydd wedi'i warchod yn dda i Gymru. Mae'n gofalu am leoedd hanesyddol a'u diogelu fel y gallant barhau i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n sicrhau bod lleoedd hanesyddol yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o lunio'r Gymru gyfoes, gan ddarparu cyswllt byw â hanes llawn amrywiaeth y wlad a helpu i wneud synnwyr o le Cymru mewn byd sy'n newid.

Mae Cadw yn isadran Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

Mae'r Bwrdd sy'n cefnogi Cadw yn cynnwys aelodau anweithredol sy'n cynghori, cefnogi, craffu a monitro cyfeiriad strategol, cynllun busnes a safonau Cadw. Mae'r Bwrdd yn darparu cyngor ac arweiniad ac nid yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Cadw.

Sefydlwyd y **Comisiwn Brenhinol** o dan Warant Frenhinol a gyhoeddwyd ym 1908, ac mae'n gweithredu yn unol â hynny. Y Comisiwn yw sylfaenydd, curadur a chyflenwr gwybodaeth awdurdodol ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniadau unigol, corfforaethol a llywodraethol, ymchwilwyr, a'r cyhoedd. Mae'n cyflawni swyddogaeth flaenllaw yn genedlaethol trwy ddatblygu a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth archaeolegol, adeiledig a morwrol Cymru. Yn benodol, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am CHCC, archif amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n cynnwys deunydd ar bob agwedd ar hanes archaeolegol, pensaernïol, eglwysig, diwydiannol, amddiffynnol a morwrol. Ceir mynediad at CHCC ar-lein a thrwy gyfleusterau llyfrgell ac ystafell chwilio. Nid yw diben y Comisiwn wedi'i ddiweddaru ers cyhoeddi'r Warant Frenhinol yn wreiddiol, ac ers hynny mae cyrff cyfatebol yng ngwledydd eraill y DU wedi cael eu diddymu neu eu cyfuno yn gyrff olynol.

1 Adroddiad economaidd ac ariannol Cymru 2024 | LLYW.CYMRU

Hefyd, mae'r Comisiynwyr yn derbyn Llythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi'r hyn y disgwylir i'r Comisiwn ei gyflawni trwy ddefnyddio'r adnoddau a roddir iddo gan y Llywodraeth. Mae'r llythyr cylch gwaith presennol yn cwmpasu cyfnod Tymor y Llywodraeth 2021 i 2026. Caiff ei adolygu ar gyfer y cyfnod o 2026 ymlaen er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau'r Llywodraeth newydd.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y Comisiwn Brenhinol.

Mae swyddogaethau a gweithgareddau allweddol y ddau sefydliad wedi'u nodi ar lefel uchel yn Atodiad 2.

## Adolygiad blaenorol

Ym mis Mai 2012 cyhoeddodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth y byddai gweithgor yn cael ei sefydlu i edrych ar opsiynau ar gyfer uniad posibl rhwng y Comisiwn Brenhinol a sefydliadau eraill gan gynnwys Cadw, fel rhan o adolygiad ehangach o wasanaethau'r amgylchedd hanesyddol. Cynhaliwyd ymchwiliad gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i bolisi amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys archwilio'r cynnig hwn. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o randdeiliaid a fynegodd amheuon am y dull gweithredu hwn ac, o ganlyniad, edrychodd y Gweinidog eto ar y cynnig a phenderfynwyd y dylai'r ddau sefydliad barhau i fod yn annibynnol ond y dylent gydweithio'n agos.

Ers hynny, bu datblygiadau perthnasol yn y fframwaith deddfwriaethol (yn benodol: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a'i chyfres o is-ddeddfwriaeth ategol, a ddaeth i rym yn llawn ar 4 Tachwedd 2024); y cyd-destun economaidd ac ariannol; a ffyrdd o weithio sy'n ei gwneud hi'n briodol ailystyried y mater.

Adran 4

# Methodoleg yr Adolygiad

## Egwyddorion

Roedd yr egwyddorion a oedd yn sylfaen i'r broses adolygu yn cynnwys:

- cydweithio â phartïon sydd â buddiant
- ymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol
- cynnwys arbenigedd treftadaeth annibynnol
- sicrhau cynaliadwyedd ariannol
- dibynnu ar sylfaen dystiolaeth gadarn.

Wrth ymateb i'r adolygiad o drefniadau llywodraethu Cadw (gweler uchod) cadarnhaodd y Gweinidog na ddylid ailedrych ar y penderfyniad blaenorol y dylai Cadw barhau i fod yn rhan o Lywodraeth Cymru. Felly, mae'r adolygiad hwn wedi nodi bod y strwythur hwn yn baramedr sefydlog wrth ystyried opsiynau yn y dyfodol. Mae llawer o waith Cadw yn ymwneud â gofalu am, gwarchod, dehongli ac agor safleoedd hanesyddol i'r cyhoedd o dan ofal Llywodraeth Cymru. Ni fyddai canlyniad yr adolygiad yn newid natur y gwaith hwn yn sylfaenol, felly nid yw wedi bod yn rhan fawr o ystyriaethau'r gweithgor.

Mae Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau treftadaeth eraill ledled Cymru a, lle bo'n briodol, mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Felly, roedd rhai o'r rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr adolygiad hwn wedi dadlau y dylai'r adolygiad fod wedi edrych yn ehangach ar swyddogaethau Cadw a'r Comisiwn Brenhinol ochr yn ochr â sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y sector amgylchedd hanesyddol, ac ar ei gyfer, yng Nghymru. Yn benodol, nodwyd bod Heneb wedi'i sefydlu ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ar drefniadau llywodraethu Cadw a arweiniodd at y gwaith hwn.

Roedd y gweithgor yn cydnabod y cysylltiadau rhwng sefydliadau eraill a Cadw a'r Comisiwn Brenhinol, ond nid oedd yn credu ei bod yn briodol ehangu cwmpas yr adolygiad. Roedd y Gweithgor yn canolbwyntio ar swyddogaethau ategol Cadw a'r Comisiwn Brenhinol a ariennir gan y llywodraeth, er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd a'u gwytnwch. Nid yw hyn yn diystyru'r posibilrwydd o gydweithio'n agosach â sefydliadau eraill yn y dyfodol. Yn wir, proses o gydweithredu strategol yw un o brif ddyheadau'r *Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant* Gellir ystyried cydweithio'n agosach â sefydliadau eraill fel rhan o fentrau eraill neu ar ôl i'r adolygiad hwn ddod i ben, er enghraifft drwy Bartneriaeth Cymru Hanesyddol.

## Methodoleg

Cadeirydd y gweithgor oedd Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr y Celfyddydau a Chwaraeon (Cyfarwyddiaeth Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru), a weithredodd fel Uwch Swyddog Cyfrifol. Mae Cylch Gorchwyl ac aelodau'r gweithgor wedi'u nodi yn Atodiad 1.

Bu'r Gweithgor yn goruchwylio'r broses adolygu trwy gynnal cyfarfodydd misol trwy gydol y cyfnod. Ymgysylltwyd â staff trwy weithdai staff, cylchlythyrau rheolaidd i staff yn rhoi adborth o gyfarfodydd y gweithgor, cynrychiolaeth ar y gweithgor ei hun, ac fel aelodau o grwpiau gorchwyl a gorffen pwnc penodol. Hysbyswyd rhanddeiliaid allanol bod yr adolygiad wedi'i sefydlu, a chawsant wahoddiad i gyfrannu ar ffurf ysgrifenedig a/neu drwy fynychu gweithdai rhanddeiliaid.

Bu’r gweithgor yn goruchwylio gwaith ac yn derbyn adroddiadau gan weithdai staff a rhanddeiliaid, grwpiau gorchwyl a gorffen yn ymwneud â CHCC, cyngor TG ac ariannol, a gwaith amrywiol arall a oedd yn mynd rhagddo er mwyn ystyried cyflwyno argymhellion Adolygiad Trefniadau Llywodraethu Cadw. Comisiynwyd cyngor a chynhyrchwyd papurau i fynd i’r afael â materion penodol, gan gynnwys ceisio cyngor cyfreithiol allanol i gefnogi trafodaethau’r gweithgor. Cytunodd y gweithgor ar ddisgrifiadau cychwynnol o brif nodweddion y tri opsiwn dan ystyriaeth (busnes fel arfer; cydweithio agosach; ac uno). Roedd y disgrifiadau hyn yn sylfaen i drafodaethau mewn gweithdai staff a rhanddeiliaid a chawsant eu mireinio wedyn ar sail y trafodaethau hyn a’r gwaith datblygu pellach.

Cafodd ffactorau llwyddiant allweddol eu datblygu a’u cymhwyso i bob un o’r opsiynau er mwyn profi cadernid y syniadau ac asesu’r opsiynau yn erbyn amcanion cyffredinol yr adolygiad h.y. bod y strwythur cywir ar waith erbyn mis Mawrth 2026 i gefnogi gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru, gyda nodau ac amcanion a threfniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithlu cynaliadwy, gyda sgiliau arbenigol, wedi’i ddiogelu ar gyfer y dyfodol. Maent yn cael eu hamlinellu ym mhob un o’r atodiadau sy’n crynhoi’r opsiynau a ystyriwyd.

Adran 5

# Barn rhanddeiliaid

## Barn staff

Cafodd staff wybod ar ddechrau'r adolygiad nad ymarferiad arbed arian oedd hwn, gan roi sicrwydd iddynt ar ôl blwyddyn anodd pan gafodd lefelau cyllid eu lleihau flwyddyn yn gynharach na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd ariannol y sector treftadaeth yn hanfodol i'r model arfaethedig a gyflwynwyd. Cynhaliodd Cadw a'r Comisiwn Brenhinol drafodaethau mewnol cyn cynnal gweithdai ar y cyd dros ddau ddiwrnod ym mis Hydref 2024 a fynychwyd gan staff o'r ddau sefydliad. Darparwyd nodyn cefndir ar y tri opsiwn i'w ystyried cyn y gweithdai. Ar ôl cyflwyniadau cyffredinol yn y digwyddiadau, ystyriwyd tri grŵp o faterion yn fanylach, pob un yn dwyn ynghyd agweddau ar waith y Comisiwn Brenhinol a Cadw:

- Arolygu, ymchwilio, gwaith ymchwil, cyngor ar yr amgylchedd hanesyddol, a threftadaeth mewn perygl.
- Allgymorth, ymgysylltu â'r cyhoedd, dysgu gydol oes a gwefannau.
- Cofnodion, archif a chydweithredu digidol.

Cyfrannodd aelodau staff yn llawn at y drafodaeth, a rhannwyd y dadansoddiad o'r materion yn gyffredinol gyda staff o'r ddau sefydliad. Un sylw a ddaeth i'r amlwg o bob grŵp oedd y ffaith eu bod wedi dysgu llawer am fanylion gwaith ei gilydd o ganlyniad i'r trafodaethau, ac y byddai'r ddealltwriaeth well sy'n deillio o hyn yn eu helpu i weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd yn y dyfodol. Beth bynnag fyddai canlyniad yr adolygiad, roedd brwdfrydedd amlwg dros barhau â'r sgwrs a gwella prosesau cyfathrebu yn y dyfodol.

Darparwyd adborth i fynychwyr y gweithdai ar ôl y digwyddiadau, a darparwyd diweddariadau misol i'r holl staff trwy gydol y broses. Mae brwdfrydedd gwirioneddol ynghylch dulliau newydd o gydweithio ynghyd â rhywfaint o bryder am yr ansicrwydd anochel sy'n bodoli nes bod penderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud a'u cyhoeddi.

Wrth i'r adolygiad barhau, mae staff wedi parhau i fod yn rhan o drafodaethau dilynol ac wedi ystyried, er enghraifft, strwythurau rheoli yn y dyfodol o dan opsiynau gwahanol.

## Barn rhanddeiliaid allanol

Cyn Nadolig 2024, cynhaliwyd tri chyfarfod gyda sefydliadau unigol sydd â chysylltiadau agos iawn â Cadw neu'r Comisiwn Brenhinol, neu'r ddau sefydliad.

Cynhaliwyd dau weithdy ar-lein llwyddiannus gyda rhanddeiliaid yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 6 Ionawr 2025. Cafwyd sylwadau pellach gan nifer o'r rhai a oedd yn bresennol.

Cafodd y gweithdai eu llywio gan nodyn ar gefndir yr adolygiad ei hun a dadansoddiad o oblygiadau pob un o'r prif opsiynau sy'n cael eu trafod (Atodiad 3).

Crynhowyd y prif themâu o weithdai'r staff a'r rhanddeiliaid allanol o'r trawsgrifiadau (Atodiadau 4–5).

Dadleuodd nifer o gyfranogwyr fod angen ehangu paramedrau'r adolygiad er mwyn ystyried darparu gwasanaethau'r amgylchedd hanesyddol yn ehangach yng Nghymru. Hysbyswyd pawb ar y pryd fod y materion sydd i'w trafod wedi'u hamlinellu yn y gwahoddiad i fynychu'r gweithdai. Nododd y rhan fwyaf o gyfranogwyr y byddent yn gobeithio gwneud sylwadau ar yr argymhellion terfynol cyn eu bod yn cael eu gweithredu.

Cynhaliwyd cyfarfod arall gyda'r Archifau Cenedlaethol ym mis Chwefror 2025 i drafod materion manwl yn benodol, gan gynnwys materion yn ymwneud â gofynion CHCC a Man Adneuo.

Daeth dwy brif thema i'r amlwg yn dilyn y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid gan lywio'r asesiad o sylwadau manylach eraill:

- Cafodd gwybodaeth a phroffesiynoldeb staff Cadw a'r Comisiwn Brenhinol eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n eang. Roedd cyfranogwyr yn awyddus i sicrhau y dylai newidiadau hyrwyddo yn hytrach na llesteirio gwybodaeth a phroffesiynoldeb.

- Ni ddangoswyd llawer o frwdfrydedd ynghylch canlyniad a fyddai'n gadael pethau yn union fel y maent ar hyn o bryd, ac roedd cydnabyddiaeth eang bod angen cyflwyno newid.

Roedd y trafodaethau yn gadarnhaol ac yn ddiddorol, ac roedd llawer o'r pwyntiau a godwyd wedi'u cyflwyno fel cwestiynau agored yn hytrach na datganiadau o safbwyntiau sefydlog.

Teimlwyd bod angen rhagor o wybodaeth am sawl maes cyn penderfynu ai gweithio'n agosach neu uno oedd yr opsiwn a ffefrir: e.e. pa newidiadau a allai ddod i'r amlwg o ran sut mae Cadw yn gweithredu o ganlyniad i elfennau eraill o adolygiad Cadw; natur y mesurau diogelu a allai gael eu rhoi ar waith ar gyfer CHCC; y gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â bod yn Fan Adneuo o dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus; perthynas Cadw a'r Comisiwn Brenhinol â sefydliadau treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol ehangach yn y dyfodol; a goblygiadau ariannol yr opsiynau.

Roedd pob un o'r gweithdai a'r cyfarfodydd yn ailadrodd yr angen i wirio unrhyw gynigion er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bobl Cymru, gan gynnwys eu budd i'r cyhoedd a gwerth i drethdalwyr, a'u bod er lles pennaf yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, yn hytrach na'u bod yn rhoi blaenoriaeth i fuddiannau sefydliadol unigol.

**Materion allweddol a godwyd yn y gweithdai:**

- **Pwysigrwydd cynnal y capasiti i ymchwilio a chyhoeddiadau.** Mae cyfyngiadau ariannol wedi arwain at bryderon ynghylch cyfyngu ar y gwaith hwn. Roedd pobl yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth bresennol o fformatau cyhoeddi, ond roedden nhw'n deall bod hyn yn arwain at fwy o orbenion cost.
- **Hygyrchedd data a rheoli archifau.** Mae nifer o byrth gwahanol yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer cyrchu data, ac mae'n gallu bod yn anodd i ddefnyddwyr nodi'r dull gweithredu gorau. Roedd galwadau am systemau mwy integredig i atgyfnerthu awdurdod a chyflawnrwydd y cofnod cenedlaethol, sydd ar hyn o bryd yn dameidiog ac anghyflawn ac er mwyn hwyluso mynediad haws.
- **Mynediad at gyllid allanol** — sydd ar gael ar hyn o bryd i'r Comisiwn Brenhinol trwy ymddiriedolaethau sy'n dyfarnu grantiau, cyllid sydd o bosibl yn anos ei gyrchu i sefydliad sy'n rhan o'r Llywodraeth, a chyllid addysgol ac ymchwil a allai fod yn anos ei gyrchu hefyd i sefydliad sy'n rhan o'r Llywodraeth.
- **Annibyniaeth cyngor oddi mewn i'r system gynllunio** — mae natur y cyngor sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan staff Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn wahanol iawn. Yn gyffredinol, mae Cadw yn darparu gwybodaeth ffeithiol gryno yn ymwneud â'r sefyllfa statudol, tra bod staff y Comisiwn Brenhinol yn gallu darparu mwy o wybodaeth gyd-destunol sy'n seiliedig ar ymchwil. Nodwyd ei bod yn hanfodol bod staff arbenigol yn gallu parhau i roi cyngor annibynnol, arbenigol.
- **Y gallu i recriwtio ar draws yr ystod o arbenigeddau sydd eu hangen** — gyda chydnabyddiaeth bod y broses hon yn cael ei chyfyngu ar hyn o bryd oherwydd diffyg adnoddau.
- **Y gallu i eiriol ar ran yr amgylchedd hanesyddol** a gwasanaethu fel ymddiriedolwyr a swyddogion cymdeithasau treftadaeth cenedlaethol — ar hyn o bryd mae'n haws i staff y Comisiwn Brenhinol wneud hyn na staff Cadw gan mai gweision sifil yw'r olaf ac na allant weithredu y tu hwnt i swyddi Gweinidogol y cytunwyd arnynt.

**Roedd swyddogaeth a sefyllfa CHCC** yn destun pryder penodol i gyfranogwyr y gweithdai, ac roedd eu cwestiynau yn llywio'r drafodaeth gyda'r Archifau Cenedlaethol ym mis Chwefror, a'r trafodaethau dilynol. Cadarnhaodd yr Archifau Cenedlaethol nad oes unrhyw rwystr cyfreithiol sy'n atal CHCC rhag bod yn rhan o Adran y Llywodraeth — mae'r Archifau Cenedlaethol eu hunain yn Adran Anweinidogol o'r DCMS — ac yn parhau i fod yn Fan Adneuo.

Byddai'r Archifau Cenedlaethol yn ailystyried sefyllfa CHCC fel Man Adneuo Penodedig ac fel archif achredig unwaith y bydd unrhyw drefniadau newydd wedi'u nodi a'u rhoi ar waith. Mae grŵp gorchwyl a gorffen CHCC yn credu y byddai rhyddid gwarantedig o gyfarwyddyd y Gweinidog yn allweddol i gadw statws presennol CHCC. Mae sawl ffordd o wneud hyn, a byddai angen profi'r dulliau posibl wrth ddatblygu opsiynau gweithredu. Er enghraifft, gellid diogelu CHCC trwy ddeddfwriaeth (a fyddai angen amser yn y rhaglen ddeddfwriaethol), drwy Warant Frenhinol newydd/ddiwygiedig, drwy sefydlu elusen annibynnol, neu mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyhoeddedig rhwng Llywodraeth Cymru a Cadw. Datrysiad deddfwriaethol fyddai'n darparu'r warant orau. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad 6.

## Dadansoddiad o'r opsiynau

Mae'r tablau canlynol yn amlinellu dadansoddiad Cryfderau/Gwendidau/Cyfleoedd/Bygythiadau (SWOT) ar gyfer pob un o'r tri opsiwn a ystyriwyd. Maen nhw'n crynhoi trafodaethau a mewnbwn o'r gweithdai staff a rhanddeiliaid, cyfarfodydd y gweithgor a gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen. Mae rhagor o fanylion am yr opsiynau a'r materion a ystyriwyd mewn perthynas â chydweithio agosach wedi'u cynnwys yn Atodiad 7. Mae rhagor o bapurau ategol yn bodoli ym mhob maes ond nid ydynt wedi'u hatgynhyrchu'n fanwl yma.

I grynhoi, ni nodwyd unrhyw rwystrau **cyfreithiol** sylweddol yn ymwneud ag unrhyw un o'r tri opsiwn. Byddai'r opsiwn i uno yn golygu bod angen ymdrin â sefyllfa CHCC yn ofalus, ac o bosibl gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod Cadw yn gallu cyflawni rhai o swyddogaethau penodol y Comisiwn Brenhinol fel rhan o Lywodraeth Cymru. Byddai angen gwneud dadansoddiad cyfreithiol arall unwaith y nodir ffordd ymlaen gytûn i archwilio hyfywedd yr opsiynau a nodir uchod.

Yn ôl y casgliad a gafwyd ar ôl ystyried **materion TG**, byddai uniad data yn unig yn gymhleth a drud ac yn colli buddsoddiad blaenorol Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Brenhinol yn y systemau presennol, yn ogystal â rhwystro gwaith staff, gan arwain at amser segur sylweddol a cholli mynediad at adnoddau i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod ailddatblygu. Ni fyddai'r peryglon hyn yn berthnasol i gydweithio agosach na threfniant rhwydwaith ar wahân o dan yr opsiwn uno, lle byddai'r rhan fwyaf o gymwysiadau'r Comisiwn yn aros y tu allan i rwydweithiau TG Llywodraeth Cymru, wedi'u rheoli gan staff TG arbenigol, ond yn cydymffurfio â safonau Seiberddiogelwch Llywodraeth Cymru.

Nododd y grŵp **cyllid** fod y ddau sefydliad yn rheoli cyllidebau heriol a'u bod eisoes wedi cyflwyno arbedion effeithlonrwydd wrth ail-negodi contractau, rheoli gostyngiadau a rheolaethau llymach ar gyfer gwariant yn ôl disgresiwn. Byddai angen buddsoddiad yn y tymor byr ar gyfer cydweithredu agosach ac uno. Gallai'r opsiwn uno fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol yn yr hirdymor ond byddai'n arwain at gostau trosiannol uwch. Fel sefydliad sy'n rhan o'r Llywodraeth, mae gan Cadw rôl fwy uniongyrchol yn y broses o bennu cyllideb a chyfle i gyflwyno achos cydnerth am gyllid treftadaeth gan Weinidogion.

Aseswyd elfennau pob opsiwn yn erbyn yr amcan cyffredinol canlynol o ddarparu gwasanaeth amgylchedd hanesyddol cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru, gyda nodau ac amcanion cytûn, a ddarperir gan weithlu medrus a chynaliadwy sydd wedi'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol. Gwerthuswyd hyn yn erbyn y meini prawf llwyddiant canlynol:

- Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru.
- Gyda nodau ac amcanion cytûn.
- A ddarperir gan weithlu medrus a chynaliadwy sydd wedi'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol.
- Cynaliadwyedd: o ran costau, staffio a strwythurau llywodraethu.
- Ansawdd y Gwasanaeth: o ran arbenigedd a gallu staff, dibynadwyedd y gwasanaeth a'r systemau TG, a rhwyddineb mynediad i gwsmeriaid.
- Cost: o ran fforddiadwyedd a gwerth am arian.
- Gweithredu/amseru: o ran cyflawniad.
- Effaith ar staff/rhanddeiliaid: o ran boddhad.
- Llywodraethu: o ran sefydlogrwydd a chyflawniad.

# Asesiad cryno

**Mae'r tablau canlynol yn cynnwys dadansoddiad SWOT cryno o bob opsiwn a gafodd ei ystyried, ac yna asesiad yn erbyn y meini prawf llwyddiant a nodir uchod.**

## Busnes fel arfer

Mae Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i fod yn ddau endid ar wahân. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn dal i feddu ar Warant Frenhinol a Bwrdd Comisiynwyr. Mae CHCC yn parhau i fod y tu allan i reolaeth y Llywodraeth.

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Mae'n sicrhau hyblygrwydd oddi mewn i'r Warant a'r Llythyr Cylch Gwaith fel bod modd i'r Comisiwn Brenhinol osod ei flaenoriaethau strategol a'i gynllun cyflawni ei hun, gan wneud ei benderfyniadau ei hun am flaenoriaethau ar gyfer gwaith ymchwil ac arolygu, ar sail arweiniad arbenigol Comisiynwyr.<br><br>CHCC yn aros y tu allan i reolaeth y Llywodraeth.<br><br>Gall rheolwyr Cadw barhau i ganolbwyntio ar eu blaenoriaethau eu hunain.<br><br>Bydd yn arwain at y tarfu tymor byr lleiaf ar staff ym mhob sefydliad dan sylw.<br><br>Mae'n cynnal llinellau cyfathrebu/cyswllt presennol â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys gallu staff/Comisiynwyr y Comisiwn Brenhinol i weithredu fel eiriolwyr annibynnol dros yr amgylchedd hanesyddol.<br><br>Mae'r Comisiwn Brenhinol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud a sut mae arian wedi cael ei wario. | Ansicrwydd parhaus ynglŷn â faint o gyllid ac adnoddau fydd ar gael, gan arwain at ansefydlogrwydd parhaus ymysg staff a'r ffaith na fydd y Comisiwn Brenhinol yn gallu cynllunio ar gyfer olyniaeth, ac na fydd modd cyflawni yn erbyn rhai swyddogaethau craidd.<br><br>Felly, mae'r amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad presennol yn parhau, gan arwain at yr angen posibl i ailystyried y mater yn y dyfodol.<br><br>Nid yw'n bodloni dyheadau staff na rhanddeiliaid allanol.<br><br>Bydd yn anodd i Cadw gynnig cyngor polisi manwl, cyfrinachol mewn rhai meysydd polisi sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol oddi mewn i Lywodraeth Cymru.<br><br>Nid oes modd manteisio'n llawn ar effaith arbenigedd treftadaeth na'i symleiddio, gan fod arbenigedd o'r fath yn bodoli mewn dau sefydliad gwahanol. Mae'n bosibl y bydd bylchau mewn darpariaeth. Gall hyn gyfyngu ar effeithiolrwydd y dylanwad ar bob rhan o Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus.<br><br>Bydd gan Lywodraeth Cymru lai o gysylltiad uniongyrchol â blaenoriaethau'r Comisiwn Brenhinol ac felly llai o allu i sicrhau bod cyllid yn cyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Posibilrwydd parhaus o ddenu cyllid prosiectau allanol i'r Comisiwn Brenhinol (gyda phryderon parhaus am hyfywedd). | Mae cyllid cyfyngedig ar gyfer y Comisiwn Brenhinol yn golygu ei fod yn endid annibynnol anghynaliadwy.<br><br>Mae rhagor o ostyngiadau mewn staffio oddi mewn i gyllid y Comisiwn Brenhinol yn arwain at anallu i fodloni telerau'r Warant Frenhinol a'r llythyr cylch gorchwyl, gan arwain at archwiliad pellach o'i statws. Bydd hyn yn gofyn am fwy o amser a mewnbwn gan uwch aelodau staff y ddau sefydliad, gweinidogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol. |

O dan y model hwn, byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i fod yn endid ar wahân, yn gweithredu o dan y Warant Frenhinol, wedi'i oruchwylio gan Fwrdd Comisiynwyr a'i noddi gan isadran nawdd Llywodraeth Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu'r rhan fwyaf o'i gyllid, a byddai llythyr cylch gorchwyl yn darparu cyfarwyddyd. Byddai'r CHCC yn parhau i fod yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth.

Byddai Cadw yn parhau i fod heb fynediad uniongyrchol at adnoddau mewn rhai meysydd. Byddai staff y Comisiwn Brenhinol hefyd yn parhau i weithio o dan bwysau sylweddol wrth iddynt gyflawni mwy nag un rôl.

Ychydig iawn o gefnogaeth a gafwyd i'r opsiwn hwn ymhlith rhanddeiliaid mewnol neu allanol, a oedd yn ymwybodol o'r anawsterau sydd wedi wynebu staff a Chomisiynwyr y Comisiwn Brenhinol wrth gyflawni cylch gorchwyl y Warant Frenhinol, o ystyried y byddai pwysau ariannol yn parhau i fod yn ffactor perthnasol yn y dyfodol agos.

Nid oedd rhanddeiliaid yn credu bod y model yn mynd i'r afael â'r materion a oedd wedi arwain at yr adolygiad yn y lle cyntaf, a nodwyd ei fod yn annhebygol iawn o fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Er enghraifft, mae'r Comisiwn Brenhinol yn wynebu problemau wrth recriwtio digon o staff i gyflawni ei gyfrifoldebau llawn, gydag arbenigedd ar lefel un person, sy'n gwneud cynllunio olyniaeth yn amhosibl.

Mae'r opsiwn hwn yn perfformio'n wael yn erbyn y meini prawf cynaliadwyedd, ansawdd y gwasanaeth, ac effaith ar staff a rhanddeiliaid.

Mae'n niwtral o ran cost, gweithredu ac amseru, a chyflawniad llywodraethu gan nad oes angen unrhyw newid yn y meysydd hyn.

| **Meini prawf llwyddiant** | | | **Coch/ Oren/ Gwyrdd** |
|---|---|---|---|
| Cynaliadwyedd | Cost | Dim newid | G |
| | Staffio | Diffyg gallu yn parhau | O/C |
| | Llywodraethu | Pwysau ar Gomisiynwyr i gyflwyno'r Warant Frenhinol a'r Rhaglen Lywodraethu | O |
| Ansawdd y gwasanaeth | Arbenigedd staff | Diffyg gallu yn parhau | O/C |
| | Dibynadwyedd | Diffyg gallu yn parhau | C |
| | TG | Diffyg gallu yn parhau | O |
| Cost | Fforddiadwyedd | Dim newid | G/O |
| Gweithredu/amseru | Cyflawnadwy | Dim newid | G |
| Effaith ar staff/ rhanddeiliaid | | Rhanddeiliaid siomedig sy'n chwilio am newid | C |
| Llywodraethu | Sefydlogrwydd | Annhebygol o barhau yn yr hirdymor | O/C |
| | Cyflawnadwy | Dim newid | G |

## Cydweithio agosach

Mae Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i fod yn ddau endid ar wahân. Mae CBHC yn parhau i fod â Gwarant Frenhinol a Bwrdd Comisiynwyr. Mae CHCC yn parhau i fod y tu allan i reolaeth y Llywodraeth. Mae'r ddau sefydliad yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithredu gweithredol ac yn ceisio nodi'r sefydliad arweiniol mewn rhai meysydd. Gallai lefel y cydweithredu amrywio'n sylweddol, gan arwain at amrywioldeb o ran costau a chanlyniadau.

### Cryfderau

Mae'r Warant Frenhinol yn parhau i fod ar waith fel y brif sylfaen strategol a chyfansoddiadol ar gyfer gwaith y Comisiwn o dan arweiniad Comisiynwyr sy'n cael eu penodi oherwydd eu profiad perthnasol.

CHCC yn parhau i fod y tu allan i reolaeth y llywodraeth.

Mae'n cadw hyblygrwydd fel bod y Comisiwn Brenhinol yn gallu datblygu a defnyddio systemau TG sy'n berthnasol i waith y Comisiwn heb fod angen i'r Llywodraeth gyfranogi ar wahân i gydymffurfiaeth â seiberddiogelwch, a fyddai'n fuddiol i'r ddau sefydliad.

Mae'n caniatáu i'r Comisiwn Brenhinol barhau i godi arian o ffynonellau allanol ac elwa ar ddisgowntiau addysgol ar gyfer rhai mathau o feddalwedd.

Mae'n caniatáu i Gomisiynwyr/staff y Comisiwn Brenhinol barhau i weithredu fel llais eiriolaeth annibynnol ar gyfer y sector.

Ni fydd yn cael llawer o effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau.

### Gwendidau

Mae'r ddau sefydliad yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol. Heb gyllid ychwanegol, ni fyddai llawer o gyfleoedd ar gyfer prosiectau cydweithredol newydd.

Mae angen rhywfaint o fewnbwn gan uwch staff a staff eraill er mwyn datblygu dulliau cydweithredu newydd.

Gallai cymhlethdod cynyddol posibl mewn strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd arwain at aneffeithlonrwydd/tensiynau wrth wneud penderfyniadau a diffinio swyddogaethau.

Gallai monitro gan endidau lluosog (tîm nawdd, Comisiynwyr, Bwrdd Cadw) arwain at safbwyntiau gwahanol ar flaenoriaethau a chynnydd (fel sy'n digwydd nawr).

Mae mynediad at adnoddau digidol y Comisiwn yn digwydd mewn un cyfeiriad yn unig h.y. mae gan Cadw fynediad at adnoddau'r Comisiwn Brenhinol ond nid i'r gwrthwyneb, ac mae'n dibynnu ar sgiliau a gallu TG traws-sefydliadol a allai arwain at fwy o lwyth gwaith/capasiti llawn.

### Cyfleoedd

Gallai arwain at wasanaeth symlach a mwy effeithiol (ond cost ychwanegol).

Os yw'n ddigon hyblyg, gellid ehangu prosesau cydweithredu yn y dyfodol i gynnwys aelodau eraill o Bartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol.

Bydd cyfleoedd ar gyfer rhaglenni hyfforddi a rennir a chyfleoedd gyrfaol i staff, yn ogystal ag ymagwedd gyffredin at brentisiaethau ac interniaethau*.

Mae mentrau ar y cyd yn datblygu ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth y cyhoedd*.

Bydd cyfleoedd ar gyfer rhagor o gydweithio â chyrff academaidd/sector treftadaeth yng Nghymru a thu hwnt*.

Dyhead hirdymor ar gyfer un gwasanaeth cofnod treftadaeth i Gymru.

* Gallai'r rhain i gyd ddigwydd nawr gyda'r lefelau priodol o gyllid. Gallai dylanwad ac awdurdod Cadw fel rhan o'r Llywodraeth olygu eu bod yn fwy tebygol o ddigwydd.

### Bygythiadau

Mae cyllid cyfyngedig ar gyfer y Comisiwn Brenhinol yn ei wneud yn anghynaliadwy fel endid annibynnol.

Byddai lleihau'r staff ymhellach i fyw o fewn amlen gyllido'r Comisiwn Brenhinol yn arwain at anallu i fodloni telerau'r Warant Frenhinol a'r llythyr cylch gwaith, gan arwain at archwiliad pellach o statws, gan olygu mwy o amser a mewnbwn gan uwch staff y ddau sefydliad, Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid allanol.

Nod yr opsiwn hwn fyddai sicrhau cynaliadwyedd swyddogaethau hanfodol yn y dyfodol. Byddai Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn gweithredu fel endidau annibynnol ac ategol sy'n rhannu'r un nodau. Byddai'r cydweithio yn canolbwyntio ar feysydd lle mae ganddynt gyfrifoldebau tebyg, a gallai fframwaith strategol a chytundebau ffurfiol arwain y broses hon.

Yn ei ffurf fwyaf datblygedig, byddai angen llunio cynllun ar y cyd i'w gymeradwyo gan Weinidogion a'r ddau Fwrdd ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu gyfan. Byddai'n nodi amcanion a meysydd ar gyfer cydweithio, gyda chefnogaeth cynllun busnes ar y cyd blynyddol. Byddai cyfarfodydd ar y cyd rhwng Bwrdd Cadw a Chomisiynwyr yn cael eu cynnal bob blwyddyn o leiaf. Byddai cyfarfodydd tîm uwch ar y cyd yn cael eu sefydlu. Byddai trefniadau nawdd yn aros yn ddigyfnewid. Byddai angen dulliau clir o ddelio ag anghytundebau yn ymwneud â blaenoriaethau neu faterion gweithredol, a'u datrys.

Byddai'r lefelau staffio presennol yn annigonol i gyflwyno'r model hwn yn llawn a chyflawni'r cyfrifoldebau craidd. Byddai angen capasiti a chyllid ychwanegol ar gyfer hynny. Byddai cydweithredu llai ffurfiol yn bosibl a byddai'n cynnwys costau cyfle o ran amser staff yn bennaf.

Ni fyddai defnyddwyr yn gweld llawer o newid heb gapasiti ychwanegol i wasanaethu'r trefniadau a chreu prosiectau a ffrydiau gwaith ar y cyd newydd.

Mae'r opsiwn hwn yn perfformio'n gymharol wan yn erbyn y meini prawf cynaliadwyedd, cost, gweithredu ac amseru, ac mae ganddo fanteision cyfyngedig o ran maen prawf ansawdd y gwasanaeth. Mae'n methu'r maen prawf effaith o ran staff a rhanddeiliaid ond mae'n gymharol gadarnhaol yn erbyn y maen prawf llywodraethu unwaith y bydd yn sefydlog.

Er mwyn cael effaith, byddai cydweithredu agosach yn gofyn am gyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau trawsnewidiol, a'r mwyaf arwyddocaol yw'r platfform digidol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol.

| **Meini prawf llwyddiant** | | | **Coch/Oren/ Gwyrdd** |
|---|---|---|---|
| Cynaliadwyedd | Cost | Cost barhaus i gyflwyno strwythurau gwaith agosach | O/C |
| | Staffio | Rhywfaint o siom os nad oes buddion amlwg neu gynnydd yng nghapasiti staff | O |
| | Llywodraethu | Yn gofyn am fwy o amser ar gyfer llywodraethu llwyddiannus | O |
| Ansawdd y gwasanaeth | Arbenigedd staff | Y posibilrwydd o wneud defnydd traws-sefydliadol gwell o arbenigedd unigolion | O/G |
| | Dibynadwyedd | | O |
| | TG | Ychydig o newid heb fuddsoddiad | O |
| Cost | Fforddiadwyedd | Cost barhaus i gyflwyno strwythurau gwaith agosach | O/C |
| Gweithredu/amseru | Cyflawnadwy | Byddai'n amsugno amser aelodau uwch staff a gohirio blaenoriaethau eraill o bosibl | O/C |
| Effaith ar staff/ rhanddeiliaid | | Rhai gwelliannau i'w croesawu, os yn weladwy mewn meysydd fel cyfathrebu mewnol, ond rhywfaint o siom hefyd | O/G |
| Llywodraethu | Sefydlogrwydd | Annhebygol o gael ei ystyried fel ateb parhaol, ond dylai wella effeithiolrwydd | O |
| | Cyflawnadwy | Angen mwy o gapasiti rheoli na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd | O |

## Uno

Y ddau sefydliad yn cael eu huno dan faner Cadw.

### Cryfderau

Mae'n cynnal swyddogaethau allweddol: gall timau mwy a/neu resymoli gyda mwy o fàs critigol wella gwytnwch y sefydliadau neu alluogi i swyddogaethau ychwanegol gael eu blaenoriaethu.

Gallai mynediad at arbenigedd Llywodraeth Cymru, ac at gyllid o bosibl fod yn fwy hygyrch.

Bydd y baich gweinyddol yn lleihau ar yr is-adran Diwylliant, yr is-adran nawdd, a phrosesau rheoli'r Comisiwn Brenhinol.

Dylai llywodraethu symlach ryddhau adnoddau a lleihau costau.

Cyfleoedd datblygu gyrfa gwell i staff.

Manteision mynediad a rennir at rai o systemau TG Llywodraeth Cymru a chymorth TG o ddydd i ddydd. Mae caffael staff TG y Comisiwn yn sicrhau mynediad at sgiliau ychwanegol i Cadw.

Byddai adroddiad blynyddol Cadw yn hyrwyddo'r sector treftadaeth ehangach ac yn cynnwys cyfrifon y Comisiwn Brenhinol.

### Gwendidau

Mae'n bosibl y bydd rhai cyllidwyr allanol yn fwy amharod i roi grantiau i gorff llywodraethol, o dan y rheol ychwaneged sy'n nodi na ddylai cyllid ddisodli gwasanaethau craidd y Llywodraeth.

Canfyddiad y gallai Gweinidogion ddylanwadu ar rôl CHCC (ond gellid lliniaru hyn trwy fesurau amddiffyn clir ar gyfer CHCC).

Byddai angen capasiti staff ychwanegol am gyfnod penodol er mwyn trosglwyddo data ac arbenigedd TG y Comisiwn Brenhinol i Cadw.

Costau TG ychwanegol posibl i'r sefydliad newydd o ganlyniad i golli trwyddedau addysgol, ond arbedion posibl hefyd trwy gael ei gynnwys mewn contractau a phartneriaethau ehangach.

Costau ail-frandio yn deillio o'r newid o'r Comisiwn Brenhinol i Cadw ar gyfer deunyddiau archifol CHCC a phlatfform cyflenwi digidol Coflein.

Costau staff ychwanegol posibl o ganlyniad i gysoni graddau a thâl staff Cadw a'r Comisiwn.

Nid oes gan Cadw unrhyw brofiad o reoli archif. Bydd profiad oddi mewn i'r Comisiwn yn lliniaru hyn.

### Cyfleoedd

Mwy o eglurder drwy ddatblygu un weledigaeth a chenhadaeth ac un cynllun gweithredol — siop un stop ar gyfer darparu gwasanaethau amgylchedd hanesyddol a ariennir yn gyhoeddus i Gymru ar lefel genedlaethol.

Mynediad gwell ar gyfer timau'r Comisiwn Brenhinol at adnoddau a gwasanaethau ehangach Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi cyfrifoldebau allweddol a blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol.

Hunaniaeth un corff cryfach a chyfleoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach.

Uchelgais hirdymor o gael un gwasanaeth cofnodi treftadaeth i Gymru.

Mae'n bosibl y bydd rhoddion y cyhoedd i CHCC yn cynyddu yn sgil brand a phroffil amlycach Cadw (ond efallai y bydd rhai pobl yn pryderu am roi cofnodion i ran o'r llywodraeth).

Potensial i fwrw ymlaen â phrosiectau a blaenoriaethau gwahanol/ychwanegol.

Gwella'r gallu i wireddu Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a blaenoriaethau eraill y Llywodraeth.

Y staff sy'n cyflawni swyddogaethau nawdd a gweithgareddau cysylltiedig yn cael eu rhyddhau at ddibenion eraill.

### Bygythiadau

Nid yw uno yn dileu yr holl bryderon sy'n ymwneud â gwytnwch y sefydliadau.

Mae'n bosibl na fydd rhai o swyddogaethau blaenorol y Comisiwn Brenhinol yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth oddi mewn i Lywodraeth Cymru.

Mae'n bosibl y bydd angen gwneud dewisiadau anodd rhwng blaenoriaethau a dulliau gweithredu gwahanol dimau blaenorol y Comisiwn Brenhinol a Cadw.

Efallai y bydd rhai cyfleoedd ariannu allanol yn cael eu colli.

Mae'n bosibl y bydd y cyhoedd yn amharod i roi cofnodion i CHCC os yw'n rhan o Lywodraeth Cymru (ond gellid lliniaru hyn trwy fesurau amddiffyn clir ar gyfer CHCC).

Perygl i arloesedd TG/angen am gyfyngiadau cydymffurfiaeth a gofynion storio ychwanegol o fewn systemau TG diogel y llywodraeth.

Tarfu ar wasanaethau oherwydd yr angen i uwch reolwyr ganolbwyntio ar y broses newid.

Colli arweiniad arbenigol trwy ddiddymu Bwrdd Comisiynwyr y Comisiwn Brenhinol gan nad yw'n debygol y byddai pob Comisiynydd yn ymuno â Bwrdd Cynghori Cadw. Mae'r perygl hwn yn cael ei liniaru i raddau trwy ehangu aelodaeth Bwrdd Cadw o dan y telerau uno.

Mae swydd fawr iawn y Prif Swyddog Gweithredol yn mynd hyd yn oed yn fwy ac efallai na fydd yn gynaliadwy.

Gwrthdaro neu ddyblygu posibl rhwng gwasanaethau archifau yn yr Is-adran Diwylliant a Cadw.

Yn strwythurol, mae'r opsiwn hwn yn perfformio'n gryf yn erbyn y meini prawf cynaliadwyedd, effaith ar staff a rhanddeiliaid, a llywodraethu, ac fe'i hystyriwyd yn gyffredinol fel yr opsiwn sydd fwyaf tebygol o gyflawni amcanion yr ymarferiad, cyn belled â bod modd datrys unrhyw broblemau. Fodd bynnag, mae angen darparu adnoddau i sicrhau ei fod yn llwyddo, a rhaid cynhyrchu costau manwl.

Byddai angen deddfwriaeth ar gyfer y mesurau amddiffyn cryfaf i CHCC, felly byddai'n rhaid rhoi blaenoriaeth i hyn yn un o raglenni ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn y dyfodol. Byddai angen amseroedd arweiniol hirach na'r model cydweithredu agosach ar gyfer elfennau llywodraethu eraill. Mae'n hanfodol llunio achos busnes amlinellol cyn y gellid argymell rhoi'r opsiwn hwn ar waith.

| **Meini prawf llwyddiant** | | | **Coch/Oren/ Gwyrdd** |
|---|---|---|---|
| Cynaliadwyedd | Cost | Cyflwr sefydlog: rhai arbedion effeithlonrwydd gweinyddol bach | O/C |
| | Staffio | Mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant staff, datblygu gyrfa ac ati | G |
| | Llywodraethu | Yn amodol ar gytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth | O |
| Ansawdd y gwasanaeth | Arbenigedd staff | Cyfle i ddefnyddio arbenigedd yn well a'i ledaenu | O |
| | Dibynadwyedd | Yn amodol ar gyllid | O/G |
| | TG | Fel uchod | O/G |
| Cost | Fforddiadwyedd | Cyflawnadwy: yn amodol ar gyllid ychwanegol ar gyfer costau anochel. Manteision mwyaf o fuddsoddiad ychwanegol. | O |
| Gweithredu/amseru | Cyflawnadwy | Byddai'n cymryd amser i ddelio â materion AD neu ddeddfwriaeth newydd yn enwedig | O |
| Effaith ar staff/ rhanddeiliaid | | Byddai'n cael ei groesawu yn amodol ar ddatrys materion CHCC. Heb ddatrys y materion hyn, byddai pryderon yn cael eu codi | G<br>Neu<br>C |
| Llywodraethu | Sefydlogrwydd | Ar ôl y broses weithredu | G |
| | Cyflawnadwy | | O |

Adran 7
# Casgliad

Mae'r gweithgor wedi cyfeirio at rai manteision cadarnhaol sy'n deillio o'r opsiwn i uno'r sefydliadau, ac mae'n cefnogi uniad rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol mewn egwyddor.

Mae'r gweithgor yn gallu gweld llwybr ymlaen tuag at uno, ond mae wedi nodi rhai materion allweddol sydd angen eu hegluro ymhellach a'u datrys cyn llunio barn derfynol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr angen am achos busnes amlinellol i ddangos manteision uno, gwerth am arian ac ati;
- Yr angen i ddiogelu CHCC (mae'r Gweithgor yn nodi mai deddfwriaeth sy'n cynnig y mesurau diogelu cryfaf). Ni fyddai modd gwneud hyn heb gefnogaeth y llywodraeth newydd ar ôl etholiad Mai 2026, oherwydd byddai angen cynnwys y mater yn rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth newydd.

Mae'r gweithgor yn cydnabod y bydd y broses o weithio tuag at ddatrys y materion hyn yn cymryd amser, ond mae'n nodi mai'r cam nesaf uniongyrchol yw sefydlu Grŵp Gweithredu newydd, yn cynnwys cynrychiolwyr o Cadw a'r Comisiwn Brenhinol.

Dylai'r Grŵp Gweithredu hwn ddechrau gweithio ar unwaith er mwyn nodi meysydd cydweithredu agosach a chefnogi'r gwaith sydd angen ei wneud tuag at uniad llawn rhwng y ddau sefydliad.

## Diolch

Mae'r gweithgor yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr Adolygiad, yn enwedig i staff ac aelodau Bwrdd y ddau sefydliad a Llywodraeth Cymru, a'r rhanddeiliaid sydd wedi rhoi o'u hamser i gymryd rhan mewn gweithdai a chyflwyno eu safbwyntiau. Diolch yn arbennig i staff Cadw am ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer yr Adolygiad.

Atodiad 1

# Cylch Gorchwyl y Gweithgor a'r Aelodaeth

## Cefndir

Ym mis Rhagfyr 2023 cyhoeddwyd adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu Cadw. Roedd yn cynnwys yr argymhelliad canlynol:

*Dylid cynnal adolygiad o'r berthynas rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol , os yw'n dderbyniol i bob parti, gan y ddau sefydliad sy'n gweithio gyda'i gilydd. Tua wyth i naw mlynedd yn ôl, archwiliodd y ddau sefydliad synergeddau posibl o weithio'n agosach. Ers hynny, fel y gwelir yn yr adolygiad hwn, mae'r cyd-destun strategol wedi newid a byddai'n amserol i'r ddau sefydliad archwilio opsiynau ar gyfer datblygu'r synergeddau posibl sy'n bodoli rhyngddynt wrth gyflawni eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau a rennir i warchod, cofnodi a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r amgylchedd hanesyddol.*

Cafwyd ymateb ffurfiol i'r adroddiad ar 12 Mehefin 2024 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, a gytunodd ei bod yn amserol archwilio'r berthynas rhwng y ddau sefydliad. Dywedodd:

*Mae angen i'r ddau sefydliad edrych yn ofalus ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau a nodi agweddau cyffredin a gwahanol ffyrdd o gyflawni. Mae angen ystyried pob opsiwn — o greu cysylltiad agosach rhwng rhaglenni gwaith neu eu cyfuno'n llawn — fel sydd wedi digwydd i sefydliadau tebyg yn Lloegr a'r Alban.*

Diben yr adolygiad presennol yw bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn drwy:

- Fapio a manylu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau perthnasol y ddau sefydliad a nodi synergeddau allweddol.
- Archwilio opsiynau ar gyfer cynnal a gwella'r broses o gyflawni'r swyddogaethau a'r synergeddau a nodwyd.
- Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru.

## Strwythur a rôl y Gweithgor

Bydd y gweithgor yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Gyfarwyddwr y Celfyddydau a Chwaraeon (Cyfarwyddiaeth Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru) a fydd yn gweithredu fel Uwch Swyddog Cyfrifol.

Rôl y gweithgor yw:

- sefydlu trefniadau llywodraethu priodol i gefnogi'r adolygiad hwn
- datblygu a chytuno ar friff sy'n amlinellu cwmpas y gwaith yn glir
- cytuno ar amserlen ar gyfer y gwaith
- caffael gwasanaethau ymgynghorwyr allanol er mwyn casglu safbwyntiau staff, Comisiynwyr ac Aelodau Bwrdd Cadw, a rhanddeiliaid allweddol
- cynnwys ac ymgysylltu â staff o'r ddau sefydliad yn y broses
- adolygu ac ystyried adroddiadau a gwaith blaenorol yn ymwneud â'r berthynas rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol, yn ogystal â'r broses o gyfuno sefydliadau tebyg yn Lloegr a'r Alban
- cynnwys ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol
- ystyried goblygiadau cyfreithiol, ariannol ac ymarferol yr opsiynau posibl
- cytuno ar adroddiad terfynol, gan gynnwys opsiynau, i'w gyflwyno i'r Gweinidog perthnasol sy'n gyfrifol am dreftadaeth
- sicrhau cyfathrebu effeithiol â staff yn y ddau sefydliad drwy gydol yr adolygiad.

Cefnogir y gwaith hwn gan reolwr prosiect a fydd yn cael ei benodi gan yr Uwch Swyddog Cyfrifol.

## Aelodaeth

Bydd y grŵp hwn yn cael ei gadeirio gan Steffan Roberts yn rhinwedd ei swydd fel Uwch Swyddog Cyfrifol. Bydd yr aelodau'n cynnwys:

- Gwilym Hughes, Pennaeth Cadw
- Christopher Catling, Ysgrifennydd y Comisiwn Brenhinol
- Manon Maragakis, yr Is-adran Diwylliant
- Caroline Crewe-Read, Cadeirydd Dros Dro y Comisiwn Brenhinol
- Peter Wakelin, Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Cadw
- Alison Gunnion: PCS
- Irene Allen: FDA
- Jane Lancastle: Prospect
- Cynrychiolydd annibynnol o'r sector treftadaeth: Carole Souter.

Hefyd, bydd y grŵp yn manteisio ar arbenigedd ehangach o bob rhan o Lywodraeth Cymru yn ôl yr angen e.e. trwy ofyn am gyngor gan Bennaeth y Tîm Archifau a Llyfrgelloedd, y Pennaeth Nawdd Diwylliant, yr Uned Cyrff Cyhoeddus, AD a Gwasanaethau Cyfreithiol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp hwn.

## Cyfarfodydd

Bydd y grŵp hwn yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis trwy gydol y cyfnod adolygu. Gellir ymdrin â materion mwy gweithredol trwy e-bost, a bydd modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol os oes angen er mwyn sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gwblhau mewn modd amserol.

## Amserlen

Fel blaenoriaeth uniongyrchol, bydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn penodi rheolwr/cydlynydd prosiect o Lywodraeth Cymru er mwyn rheoli'r adolygiad a sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn effeithlon ac mewn modd amserol.

Bydd angen i'r gweithgor gytuno ar amserlen fanwl ar gyfer yr adolygiad cyn cwblhau adroddiad i Fyrddau'r ddau sefydliad ei ystyried a chynnig sylwadau arno, a fydd wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog treftadaeth perthnasol.

Bydd y gwaith paratoi yn dechrau ym mis Awst a mis Medi 2024. Mae hyn yn cynnwys:

- nodi themâu allweddol i sicrhau bod gan yr adolygiad ffocws pendant a'i fod mor effeithiol â phosibl
- adolygu dogfennau, gohebiaeth a chyngor cyfreithiol yn ymwneud â'r adolygiad blaenorol o'r berthynas rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol, a gwblhawyd tua deng mlynedd yn ôl
- nodi rhanddeiliaid allweddol y bydd angen casglu eu safbwyntiau fel rhan o'r adolygiad
- caffael gwasanaethau ymgynghorwyr annibynnol i hwyluso ac arwain gweithdai staff, ac ymgynghori â Chomisiynwyr ac Aelodau Bwrdd Cadw, a rhanddeiliaid allweddol.

## Dibyniaethau

Er bod yr adolygiad o'r berthynas rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn un annibynnol, bydd y Cyfarwyddwr Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon a Phennaeth Cadw yn sicrhau cysondeb â ffrydiau gwaith llywodraethu ehangach Cadw lle bo angen. Er ei bod yn bwysig ystyried trafodaethau a ddaw i'r fei, gan gynnwys trafodaethau yn ymwneud â rôl Bwrdd Cadw, nid oes unrhyw ddibyniaethau wedi'u nodi a fyddai'n gohirio gwaith y grŵp hwn.

## Adrodd

Bydd y grŵp hwn yn adrodd i'r Gweinidog perthnasol sy'n gyfrifol am dreftadaeth a fydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan swyddogion. Hefyd, bydd y grŵp yn darparu adroddiadau diweddaru rheolaidd i'r Grŵp Llywio a sefydlwyd i oruchwylio'r broses o gyflwyno argymhellion ehangach adolygiad Llywodraethu Cadw. Bydd yr adroddiad a'r argymhelliad/argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidog ynghyd â'r cyngor a ddarparwyd gan swyddogion. Bydd safbwyntiau'r gweithgor yn cael eu hadlewyrchu yn y cyngor hwn.

## Cyllideb

Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith rheoli prosiect ac ysgrifenyddiaeth yn cael ei wneud yn fewnol. Fodd bynnag, bydd angen nodi cyllideb fach ar gyfer yr ymgynghorwyr allanol a fydd yn helpu gyda'r ymgynghoriad â staff a rhanddeiliaid ac yn cynorthwyo gydag unrhyw gyngor cyfreithiol a allai fod ei angen.

Atodiad 2

# Swyddogaethau Cadw a'r Comisiwn Brenhinol

Lluniwyd y crynodeb hwn o feysydd gwaith ategol a gweithgareddau cysylltiedig er mwyn cynorthwyo trafodaethau yn y gweithdai staff a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024, ac mae wedi'i ddiweddaru i ystyried y trafodaethau hynny.

## Meysydd gwaith ategol

### Dealltwriaeth

- Deall arwyddocâd a gwerth asedau hanesyddol.
- Gwneud gwaith ymchwil er mwyn llenwi bylchau yn ein gwybodaeth a gwella ein dealltwriaeth o'n hamgylchedd hanesyddol.
- Ymchwilio i'r pwysau yn y dyfodol ar yr amgylchedd hanesyddol a chadwraeth gan gynnwys newid yn yr hinsawdd.
- Codi ymwybyddiaeth, hyrwyddo a lledaenu dealltwriaeth gyffredin i gynulleidfaoedd cyhoeddus a phroffesiynol.
- Sganio'r gorwel.

### Diogelu

- Trwy bolisi ac eiriolaeth.
- Nodi a diogelu asedau hanesyddol o arwyddocâd cenedlaethol.
- Nodi a chofnodi asedau hanesyddol o arwyddocâd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Diweddaru ac adolygu mesurau diogelu asedau heb eu dynodi a rhai dynodedig mewn ymateb i ddealltwriaeth well.
- Curadu a chadw cofnodion ac archifau er mwyn cynorthwyo gweithgareddau diogelu.

### Cynnal

- Rheoli newid sy'n effeithio ar asedau hanesyddol a'r amgylchedd hanesyddol.
- Cadw a rheoli eiddo sydd yng ngofal y Wladwriaeth.
- Nodi, cofnodi a rheoli asedau hanesyddol mewn perygl.
- Hyrwyddo adfywiad unigryw trwy dreftadaeth.
- Cefnogi gwasanaethau cadwraeth awdurdodau lleol.
- Cefnogi gwasanaethau cadwraeth y llywodraeth a'r trydydd sector.
- Hyrwyddo egwyddorion cadwraeth.
- Gweithio gyda chyrff yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru a thu hwnt.
- Gweithio y tu allan i'r sector amgylchedd hanesyddol er mwyn codi gwelededd ac ymwybyddiaeth o'r amgylchedd hanesyddol, ac eirioli drosto, ar raddfa leol, genedlaethol, y DU ac yn ehangach.
- Ymchwilio i asedau hanesyddol a'u cofnodi er mwyn llywio gwaith rheoli.
- Curadu a chadw cofnodion ac archifau er mwyn cefnogi penderfyniadau rheoli.

### Parchu (Stiwardiaeth)

- Gosod safonau ac arddangos arferion da.
- Darparu cyngor ac arweiniad.
- Monitro'r broses o gyflwyno a chynnal safonau.
- Sbarduno cyflenwad a galw am sgiliau rheoli treftadaeth (gan gynnwys sgiliau adeiladu traddodiadol).
- Darparu hyfforddiant.

### Mae gweithgareddau craidd i gyflawni'r rhain yn cynnwys:

- **Polisi a Dynodiadau**

– Ymchwil ac argymhellion.
– Dynodi a chofrestru (rhestru, cofrestru, parciau a gerddi hanesyddol, morwrol.

- **Arolygu ac ymchwilio i asedau dynodedig a heb eu dynodi (prosiectau thematig a safle-benodol)**

– Ymchwil desg.
– Ymchwil archif. Casglu a choladu rhagweithiol.
– Hanesion Llafar.
– Astudiaethau o nodweddion.
– Arolwg Digidol (awyr a daearol: Ffotograffiaeth/ Ffotogrametreg, GNSS, TST, sgan laser).
– Comisiynir yn allanol (e.e. arolygon thematig, arolwg geoffisegol, cloddio, dyddio ac ati).
– Prosiectau a ariennir yn allanol (e.e. NLHF, AHRC, RDF ac ati).

- **Cyngor Cynllunio a chyfundrefnau cydsynio statudol**

– Gwaith achos a chyngor cynllunio (daearol a thanddwr).
– Gwaith achos Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig (Cadw).

- **Arolygon o gyflwr asedau hanesyddol**

– Henebion mewn Perygl ac Adeiladau mewn Perygl Cadw.
– Arolygon RC e.e. arolwg o'r awyr a gwaith arolygu manwl.
– Troseddau treftadaeth.
– Ymchwil yn ymwneud â'r Newid yn yr Hinsawdd.

- **Gwasanaethau Eirioli / Cynghori ar yr Amgylchedd Hanesyddol**

– Cyngor ar yr Amgylchedd Hanesyddol / rheoli / cadwraeth / cofnodi ar bob lefel e.e. yn y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol, Rhyngwladol, ar gyfer perchnogion asedau treftadaeth, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd.
– Cyhoeddi canllawiau cadwraeth ar gyfer perchnogion/ ymarferwyr e.e. "Gofalu am"; "Deall", "Rheoli" ac ati.
– Cyngor pwrpasol ar reoli asedau — e.e. cynlluniau rheoli a chytundebau partneriaeth.

- **Cymorth ariannol**

– Darparu cymorth grant i gyrff treftadaeth a chadwraeth gan gynnwys rhaglen cymorth grant Heneb (gwasanaethau curadu, prosiectau cenedlaethol a rhanbarthol).
– Darparu cymorth grant cyfalaf i brosiectau er mwyn gwarchod asedau hanesyddol.

- **Cadw a chynnal asedau hanesyddol sydd yng ngofal y wladwriaeth (Cadw)**

– Trwy ein gweithredoedd, dangos arferion gorau ym meysydd ymchwilio, cadwraeth, rheoli a chyflwyno'r henebion yn y casgliad cenedlaethol.

- **Gweithio mewn Partneriaeth**

– Prosiectau thematig yn ymwneud â meysydd pryder penodol e.e. Newid yn yr Hinsawdd, Mannau Addoli.
– Pwyllgorau, grwpiau cynghori a fforymau.

- **Cyfathrebu: Eiriolaeth a Chodi Ymwybyddiaeth**

– Cyhoeddiadau: Adroddiadau, erthyglau a llyfrau sy'n lledaenu dehongliad o arolygon safleoedd unigol a phrosiectau ymchwil thematig.
– Cynadleddau, gweithdai, sgyrsiau, teithiau cerdded tywysedig, cyfryngau cymdeithasol ac ati.
– Darparu hyfforddiant.
– Allbynnau deongliadol e.e. gwefannau, animeiddiadau, ail-greu digidol ac adnoddau digidol eraill.

Mae gwybodaeth, adnoddau ac archifau yn ychwanegu at yr holl weithgareddau hyn ac yn cael eu llywio ganddynt.

- **Gwella a chreu cofnodion (Cynnal cylch rhinweddol rhwng gweithgarwch a chofnod)**

– Cronfeydd data cofnodion craidd e.e. CHCC (Coflein), Cof Cymru, HAD.
– Cronfeydd data arbenigol e.e. enwau lleoedd Cymraeg hanesyddol, capeli, meysydd brwydr.

Atodiad 3

# Papur a ddarparwyd ar gyfer gweithdai allanol

## Papur opsiynau

| | Y sefyllfa bresennol | Uno | Cydweithio strategol ffurfiol |
|---|---|---|---|
| **Prif nodweddion** | | | |
| **Gweledigaeth** | Mae Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn Brenhinol) yn sefydliadau ar wahân; mae cydweithrediad anffurfiol, a ffurfiol ar brydiau, yn digwydd ar lefel weithredol, ond yn bennaf mae'r ddau yn gweithio tuag at weledigaethau cyfochrog. | Amcan sefydlu gwasanaeth cyfunol fyddai dod ag arbenigedd ac enw da cadarnhaol y ddau gorff at ei gilydd er mwyn cyflwyno un rhaglen waith sydd â'r nod o gefnogi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r sector ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.<br><br>Byddai uniad o'r fath yn integreiddio swyddogaethau a gweithgareddau'r ddau sefydliad gyda'r nod o wella'r broses o ddarparu gwasanaethau a chynnal gwasanaethau craidd. | Byddai Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn parhau fel sefydliadau ar wahân gan gyflawni swyddogaethau ategol.<br><br>Amcan cydweithio fyddai nodi meysydd gwaith y gellid eu cyflawni'n well ar y cyd trwy sefydlu cytundebau ffurfiol. |
| **Hyblygrwydd** | Mae'r model presennol yn galluogi staff y Comisiwn Brenhinol i fanteisio ar gyfleoedd sy'n codi e.e. i godi cyllid allanol neu feithrin partneriaethau â chyrff academaidd a'r sector treftadaeth yng Nghymru ac yn rhyngwladol.<br><br>Fel Is-adran linell Llywodraeth Cymru, mae Cadw yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethu a strwythurol y gwasanaeth sifil. Mae'r adolygiad ehangach o drefniadau llywodraethu Cadw yn cael ei archwilio ar wahân. | Nid oes modd gwrthdroi'r model uno, ond mae'n creu corff cyfunol o staff sydd â mwy o fàs critigol i'w ddefnyddio'n hyblyg. | Gellid ailystyried y model cydweithio ar unrhyw adeg, neu ei ehangu i gwmpasu gwasanaethau ychwanegol neu bartneriaethau ehangach, gan gynnwys aelodau eraill o Bartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol neu'r sector treftadaeth ehangach yng Nghymru. |
| **Llywodraethu** | Amlinellir nodau'r Comisiwn Brenhinol yn y Warant Frenhinol a chan Lywodraeth Cymru, sy'n pennu cyllidebau, cylch gwaith a dangosyddion perfformiad allweddol y Comisiwn Brenhinol. Mae'n cael ei oruchwylio gan gorff arbenigol o Gomisiynwyr a benodir yn gyhoeddus. Mae'r Archifau Cenedlaethol yn goruchwylio agweddau ar ei waith hefyd.<br><br>Fel Is-adran linell Llywodraeth Cymru, mae Cadw yn atebol yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Mae Bwrdd o aelodau anweithredol yn darparu cyngor, craffu a her. | Byddai'r Comisiwn Brenhinol yn cael ei ddiddymu, a byddai ei staff, ei incwm, ei eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau yn cael eu trosglwyddo i Cadw.<br><br>Byddai prosesau llywodraethu yn cael eu symleiddio trwy uno ac integreiddio'r corff â strwythur Llywodraeth Cymru. Mae manylion llywodraethu Cadw yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. | Byddai Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i fod yn endidau gwahanol sy'n cael eu hariannu ar wahân a fyddai'n esblygu yn sgil heriau a chyfleoedd sy'n newid.<br><br>Byddai'r trefniadau goruchwylio sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer y Comisiwn Brenhinol yn parhau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweinyddiaeth a thelerau ac amodau** | Mae'r Comisiwn Brenhinol yn cael ei reoli gan Ysgrifennydd a staff gweinyddol ac mae rhai gwasanaethau yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid, archwilio mewnol, contractau yn ôl y gofyn a phensiynau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae telerau ac amodau staff Llywodraeth Cymru yn gymwys i'r staff. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn meddiannu swyddfeydd, ystafell ddarllen gyhoeddus a storfa archifau a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.<br><br>Rheolir Cadw gan Ddirprwy Gyfarwyddwr a staff gweinyddol sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â Llywodraeth Cymru. | Byddai Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i elwa ar wasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ac ni ragwelid unrhyw gostau gweinyddol neu arbedion sylweddol. Byddai staff yn trosglwyddo o'r Comisiwn Brenhinol ar yr un telerau ac amodau yn union.<br><br>Rhagdybir y byddai'r Llyfrgell Genedlaethol yn parhau i ddarparu'r swyddfeydd, yr ystafell ddarllen gyhoeddus a'r storfa archifau. | Byddai'r trefniadau gweinyddol presennol yn ddigyfnewid. |
| **Arweiniad arbenigol** | Mae'r Warant Frenhinol yn ei gwneud yn ofynnol penodi Comisiynwyr, a benodir am eu harbenigedd archeolegol a phensaernïol perthnasol, i osod amcanion strategol y Comisiwn Brenhinol.<br><br>Mae Bwrdd mewnol Cadw yn cefnogi, yn monitro ac yn craffu ar gyfeiriad strategol y sefydliad, ac mae ganddo gynllun busnes a safonau. Penodir yr aelodau anweithredol ar sail arbenigedd sy'n berthnasol i swyddogaethau allweddol Cadw. | Byddai Comisiynwyr yn peidio â bodoli. Byddai bwrdd Cadw yn cael ei ehangu er mwyn cynnwys aelodau ychwanegol i ddarparu sylfaen wybodaeth ehangach. | Ni fyddai unrhyw newid i swyddogaethau Bwrdd Cadw na'r Comisiynwyr.<br><br>Byddai'r trefniadau busnes presennol sy'n sicrhau cysondeb rhwng prosesau'r Comisiwn Brenhinol a phrosesau Llywodraeth Cymru yn parhau. Byddai tîm nawdd yr Is-adran Diwylliant yn parhau i fod yn gyfrifol am nawdd y Comisiwn Brenhinol, gan sicrhau cysondeb â chyrff hyd braich eraill. |
| **Cynllunio gweithredol** | Yn yr un modd â chyrff hyd braich eraill, mae'r Comisiwn Brenhinol yn derbyn llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau pob sesiwn pum mlynedd y Senedd. Mae'r llythyr yn amlinellu'r hyn y disgwylir i'r Comisiwn Brenhinol ei wneud yn gyfnewid am ei gymorth grant. Mae cynllun gweithredol y Comisiwn Brenhinol a'r dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt yn cael eu hadolygu bob chwarter.<br><br>Mae cynllun gweithredol Cadw yn cael ei lywio gan ei gyfrifoldebau statudol a blaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru a'i Rhaglen Lywodraethu. Mae staff Cadw yn paratoi cynllun blynyddol drafft gyda mewnbwn gan Fwrdd Cadw cyn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. | Byddai cynllun busnes integredig newydd yn cael ei lunio, gyda siart sefydliad a llinellau adrodd newydd.<br><br>Byddai Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a gwaith ymchwil a chofnodi'r Comisiwn Brenhinol yn dod yn flaenoriaethau gweithredol i'r corff unedig.<br><br>Byddai'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y 23 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n trosglwyddo o'r Comisiwn Brenhinol a thua 250 o swyddi yn Cadw yn cael eu cysoni â'r cynllun gweithredol ehangach ar gyfer y sefydliad yn ei gyfanrwydd. | Byddai'r meysydd gwaith ategol sydd eisoes wedi'u nodi trwy weithdai staff ar y cyd yn sylfaen i gytuno ar set o dasgau y gellid eu cyflawni ar y cyd yn amodol ar gyllid, gallu a chytundeb y byrddau priodol.<br><br>Byddai cytundebau ffurfiol yn cael eu datblygu gydag amcanion cyflawni clir. Byddai timau rheoli prosiect yn diffinio tasgau, yn dyrannu cyfrifoldeb ac yn monitro cynnydd.<br><br>Mae'r gronfa ddata Enwau Lleoedd Hanesyddol yn darparu model ar gyfer cytundebau o'r fath. |

| | Y sefyllfa bresennol | Uno | Cydweithio strategol ffurfiol |
|---|---|---|---|
| **Ystyriaethau allweddol** | | | |
| **Hyblygrwydd TG** | Mae'r Comisiwn Brenhinol yn rhydd i ddatblygu offer digidol a rheoli ei ddulliau storio a sicrhau copïau wrth gefn ei hun yn amodol ar fesurau diogelu Seiberddiogelwch, a gyflawnir drwy archwilio ac ardystio allanol, wedi'u monitro gan dîm Seiberddiogelwch Llywodraeth Cymru.<br><br>Rhaid i gymwysiadau TGCh Cadw gydymffurfio â gofynion Seiberddiogelwch Llywodraeth Cymru. | Gallai cyfres bresennol y Comisiwn Brenhinol o gymwysiadau TGCh greu problemau cydnawsedd a diogelwch oddi mewn i systemau Llywodraeth Cymru.<br><br>Un o'r heriau posibl yw'r posibilrwydd y bydd polisïau Seiberddiogelwch Llywodraeth Cymru yn lleihau'r cwmpas i ddatblygu atebion a rennir i ddiwallu anghenion arbenigol sector yr amgylchedd hanesyddol. | Mae annibyniaeth systemau TG y Comisiwn Brenhinol y tu allan i rwydwaith Mewnrwyd Diogel y Llywodraeth yn darparu'r hyblygrwydd i ddatblygu a defnyddio'r ystod o systemau a gwasanaethau TG sy'n benodol i swyddogaethau'r Comisiwn Brenhinol. |
| **Cofnodion cyhoeddus** | Mae'r Comisiwn Brenhinol yn cynnal Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sy'n fan adneuo statudol o dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus, ac mae ei weithgareddau'n cael eu harchwilio a'u hardystio gan yr Archifau Cenedlaethol bob pum mlynedd o dan gynllun dynodi'r Archifau Cenedlaethol.<br><br>Mae angen i holl gofnodion Cadw gydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau rheoli cofnodion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae trefniadau'n cael eu gwneud i gofnodion allweddol yn ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru sy'n cael eu creu gan staff a chontractwyr Cadw gael eu hadneuo gyda CHCC. | Mae Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn fan adneuo o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Felly, rhaid cymryd gofal i sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cydymffurfio â'r Ddeddf, yn ogystal â sicrhau bod trefniadau'n parhau i ddarparu mynediad cyhoeddus ffisegol a digidol. | Byddai aros o dan reolaeth Comisiwn Brenhinol annibynnol yn darparu sicrwydd y byddai'r cofnodion yn parhau i fod y tu allan i reolaeth uniongyrchol gweinidogion.<br><br>Bydd mynediad cyhoeddus llawn — digidol a ffisegol — yn parhau. |
| **Sefydlogrwydd a chynaliadwyedd** | Mae swyddogaethau craidd y Comisiwn Brenhinol wedi bod dan bwysau ers blynyddoedd lawer oherwydd toriadau mewn cyllid a gostyngiadau mewn capasiti (o 54 cyfwerth ag amser llawn yn 2014 i 23 cyfwerth ag amser llawn yn 2025). Mae'r gostyngiad yn effeithio ar forâl a'r gallu i recriwtio a chadw staff a Chomisiynwyr.<br><br>Mae Cadw wedi bod yn destun adolygiadau cyfnodol ac mae ei statws wedi newid o Asiantaeth Weithredol i Is-adran linell Llywodraeth Cymru, ac mae wedi wynebu toriadau ariannol. Fodd bynnag, fel corff sy'n gyfrifol am ystad hanesyddol, fawr a chorff sydd â llawer o'i swyddogaethau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, mae swyddogaethau Cadw yn gymharol ddiogel. | Mae cwestiynau am ddyfodol y Comisiwn Brenhinol wedi cael eu codi o bryd i'w gilydd, gan achosi ansefydlogrwydd. Byddai penderfyniad i uno'r ddau gorff yn datrys yr ansefydlogrwydd hwn. Gallai newid blaenoriaethau'r llywodraeth a phwysau ar adnoddau barhau i gael effaith ar raglenni gwaith yn y dyfodol. | Gyda'r ddau sefydliad dan bwysau i ymgymryd â'u gwaith craidd a mynd i'r afael â blaenoriaethau newydd, byddai cydweithio ffurfiol yn ychwanegu at yr her a'r baich cyffredinol.<br><br>Gellid ailystyried y berthynas rhwng y ddau gorff yn y dyfodol, yn enwedig os nad yw cydweithrediad yn bodloni'r disgwyliadau, gan felly ymestyn yr ansicrwydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Datblygiad gyrfa** | Mae'r Comisiwn Brenhinol yn sefydliad bach ac mae cyfleoedd datblygu gyrfa yn gyfyngedig. Mae cyfyngiadau'r gyllideb dros y degawd diwethaf wedi arwain at rewi swyddi pan fydd staff yn gadael neu'n ymddeol.<br><br>Mae staff Cadw yn elwa ar fod yn aelodau o un o Is-adrannau mwyaf Llywodraeth Cymru gyda thua 250 o swyddi. Hefyd, gallant ddatblygu eu gyrfa trwy gyfleoedd sydd ar gael yn y gwasanaeth sifil yn ehangach. | Byddai'r sefydliad unedig mwy o ran maint yn cynnig mwy o gyfleoedd datblygu gyrfa i arbenigwyr, a byddai cyfleoedd newydd i staff y Comisiwn Brenhinol ymgymryd â rolau yn y gwasanaeth sifil ehangach. | Mewn sefydliad mor fach, mae cyfleoedd datblygu gyrfa yn gyfyngedig ar gyfer staff y Comisiwn Brenhinol. Fodd bynnag, o ystyried bod telerau staff y Comisiwn Brenhinol yn cyfateb i delerau staff Llywodraeth Cymru, gellid archwilio trefniadau ar gyfer secondiadau traws-sefydliadol neu gymhwystra i wneud cais am benodiadau parhaol ar delerau cyfartal. |
| **Datblygu polisi** | Mae Cadw yn ymgynghori â'r Comisiwn Brenhinol yn yr un modd ag y byddai'n ymgynghori ag unrhyw randdeiliad arall.<br><br>Fel Is-adran linell Llywodraeth Cymru, mae Cadw yn elwa ar berthynas uniongyrchol â Gweinidogion a chydweithwyr polisi mewn mannau eraill o Lywodraeth Cymru. (Dyma un o'r prif resymau pam y penderfynwyd yn 2017 y dylai Cadw aros oddi mewn i'r llywodraeth). | Gallai staff o'r Comisiwn Brenhinol y gwaith o gael mwy o gyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisi'r amgylchedd hanesyddol a rhyngweithio â swyddogion o is-adrannau eraill. | Y tu allan i'r llywodraeth, ni fydd gan staff y Comisiwn Brenhinol yr un lefel o ddylanwad, ond byddai perthynas agosach yn gwella eu gallu i roi cyngor i adrannau eraill y llywodraeth (er enghraifft, ar faterion morol neu enwau lleoedd) ac yn sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu trwy ymgynghoriadau ffurfiol.<br><br>Ni fyddai rôl Cadw wrth ddatblygu polisïau yn newid. |
| **Datblygu sgiliau** | Mae'r ddau sefydliad yn hyrwyddo datblygiad sgiliau a hyfforddiant, o natur arbenigol a chyffredinol.<br><br>Mae gan y ddau sefydliad hanes llwyddiannus o ddarparu gwasanaethau datblygu sgiliau i eraill, er enghraifft trwy seminarau arbenigol, adnoddau dysgu a phrofiad gwaith.<br><br>Mae staff Cadw yn elwa ar yr ystod eang o gyfleoedd datblygu sgiliau sydd ar gael ledled y gwasanaeth sifil. | Byddai'r holl staff mewn sefydliad unedig yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau newydd trwy weithio ochr yn ochr â'i gilydd.<br><br>Gallai Cadw ychydig yn fwy o ran maint sydd â sylfaen sgiliau ychydig yn ehangach ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau, interniaethau, profiad gwaith, gweithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol a chyfleoedd gwirfoddoli. | Mae Cadw a'r Comisiwn Brenhinol wedi cydweithio'n llwyddiannus yn y maes hwn yn y gorffennol (prosiect Treftadaeth Nas Cerir wedi'i ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, gan weithio gyda phobl ifanc) a gellid manteisio ar gyfleoedd i gydweithio ar raddfa fwy yn y dyfodol. |
| **Gwasanaethau cadwraeth** | Mae sefydliadau eraill yn gofyn i'r Comisiwn Brenhinol am gyngor ar gadwraeth oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn gorff awdurdodol. Cydnabyddir bod y staff yn arbenigwyr sy'n deall eu maes ar lefel Cymru gyfan. Ar hyn o bryd mae'n gallu darparu cyngor yn rhydd heb gyfaddawdu i rolau statudol Cadw.<br><br>Mae arbenigwyr ac arweinwyr polisi yn gweithio i Cadw ym mhob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol. Hefyd, mae ymarferwyr cadwraeth Cadw yn gyfrifol am 131 o safleoedd sydd yng ngofal Gweinidogion Cymru. | Byddai corff unedig yn gallu rhoi cyngor cyson i awdurdodau lleol a chyrff treftadaeth eraill yn seiliedig ar ymagwedd unedig tuag at bolisi a safonau cadwraeth. Fodd bynnag, gellid peryglu gallu staff y Comisiwn Brenhinol i gynnig safbwyntiau gwahanol neu ddarparu cyngor heb leihau effaith gweinidogion. | Mae ymdrechion i sicrhau cydweithio ffurfiol wedi bod yn heriol yn y gorffennol, ac mae wedi cymryd misoedd lawer yn aml i ddod o hyd i ddatrysiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Eiriolaeth** | Mae staff y Comisiwn Brenhinol a'r Comisiynwyr yn gweithredu fel eiriolwyr dros yr amgylchedd hanesyddol trwy eu gwaith fel ymddiriedolwyr ac aelodau o bwyllgorau cyrff treftadaeth a thrwy eu gweithgarwch newyddiadurol ac ar y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Mae staff Cadw yn cael eu cydnabod yn eang am eu harbenigedd awdurdodol. Maen nhw'n gallu eirioli i weinidogion ac ar eu rhan. Fodd bynnag, rhaid iddynt osgoi unrhyw ganfyddiad o wrthdaro buddiannau ac ni allant eirioli mewn ffyrdd nad ydynt eisoes wedi'u cymeradwyo gan weinidogion. | Gallai cod y gwasanaeth sifil, a'r gofyniad i osgoi gwrthdaro buddiannau, gyfyngu ar y cyfleoedd i staff wasanaethu fel ymddiriedolwyr ac aelodau o bwyllgorau cyrff treftadaeth ac atal eu gallu i rannu safbwyntiau a gwybodaeth yn gyhoeddus trwy weithgarwch newyddiadurol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. | Gall staff y Comisiwn Brenhinol a'r Comisiynwyr barhau i fabwysiadu safbwynt annibynnol ar faterion treftadaeth, cymryd rhan mewn cyrff eraill a gwasanaethu fel eiriolwyr dros yr amgylchedd hanesyddol. |
| **Cost a fforddiadwyedd** | Ychydig iawn o gost ychwanegol, os o gwbl, fyddai'n deillio o gadw'r status quo.<br><br>Fodd bynnag, pe bai swyddogaethau allweddol y Comisiwn Brenhinol yn methu oherwydd diffyg adnoddau yn y dyfodol, byddai angen rhoi trefniadau amgen ar waith i gyflawni'r swyddogaethau, ar gost sylweddol o bosibl. | Er mwyn uno'r ddau sefydliad, byddai angen capasiti tymor byr ar lefel uwch-reolwyr Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. Bydd costau allanol — er enghraifft cael gafael ar gyngor cyfreithiol arbenigol, cwmpasu cydnawsedd TG ac ailddatblygu er mwyn sicrhau bod pob platfform yn gweithio mewn ffordd gydlynol. O ystyried y gwasanaethau gweinyddol y mae'r Comisiwn Brenhinol eisoes yn eu rhannu â Llywodraeth Cymru, byddai arbedion gweithredol yn fach. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd arbedion effeithlonrwydd a manteision gwerth am arian mwy hirdymor yn deillio o integreiddio gwasanaethau a gwella cysondeb rhwng blaenoriaethau a gweithgareddau. | Er mwyn datblygu model llwyddiannus, byddai angen nodi capasiti ymhlith uwch-reolwyr Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. |
| **Uniongyrchedd** | Byddai'r trefniadau presennol yn parhau. | Er mwyn uno'r ddau sefydliad, byddai angen datblygu model clir a manwl, diddymu'r Warant Frenhinol, a chyflwyno deddfwriaeth newydd o bosibl. Os felly, byddai angen amser ac adnoddau i wneud hyn, yn ogystal â'r angen i nodi amser i gyflwyno deddfwriaeth yn rhaglen ddeddfwriaethol y Senedd. Efallai y byddai'n bosibl bwrw ymlaen ag elfennau o'r gwaith yn anffurfiol i ddechrau, er enghraifft, trosglwyddo staff y Comisiwn Brenhinol i Cadw cyn diddymu'r Warant Frenhinol. | Gallai gwaith i nodi prosiectau cydweithredol ddechrau yn gyflym, ond mae'n bosibl na fydd yn dwyn ffrwyth ar unwaith. Capasiti unigol staff fyddai'n penderfynu hyn. |

Atodiad 4

# Adborth o weithdai staff

## Diwrnod 1: 23 Hydref 2024

### Sesiwn 1: Amcanion y gweithdy

- Nodi'r gwasanaethau ategol y mae Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn eu darparu mewn perthynas ag arolygu, ymchwilio, gwaith ymchwil, cyngor ar yr Amgylchedd Hanesyddol a rheoli Treftadaeth mewn Perygl.
- Nodi blaenoriaethau ar gyfer y 3, 5 a 10 mlynedd nesaf.
- Ystyried y modelau gweithredu gwahanol ar gyfer Cadw/y Comisiwn (A: cadw'r trefniant presennol; B: cydweithio'n agosach; C: uno oddi mewn i Lywodraeth Cymru) a'u heffaith bosibl ar ein gallu i gyflawni'r swyddogaethau hyn gan gynnwys nodi cyfleoedd a pheryglon.

### Cwestiwn Un y Gweithdy (Pawb)

**Gwasanaethau a gweithgareddau ategol**

Trafodwyd cyfres ddrafft o wasanaethau a gweithgareddau ategol yn fanwl a gwnaed rhai ychwanegiadau. Yn benodol, nodwyd bod angen rhoi mwy o bwyslais ar rôl eirioli ar ran yr amgylchedd hanesyddol y tu allan i'r sector. Gallai hyn gynnwys helpu i ddatblygu polisïau ac ymgysylltu â meysydd polisi ehangach oddi mewn i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol a chymdeithas yn ehangach. Hefyd, nodwyd bod angen rhoi mwy o sylw i osod a monitro safonau, ynghyd â phwysigrwydd diogelu a deall asedau heb eu dynodi — yn enwedig rhai morwrol. Hefyd, roedd staff yn teimlo bod angen cynnwys gwaith ar enwau lleoedd hanesyddol. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth am y berthynas rhwng Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Cofnod Henebion Cenedlaethol a'r angen i egluro rolau yn y maes hwn.

Derbyniwyd y pwyntiau hyn mewn nodyn diwygiedig.

### Cwestiwn Dau y Gweithdy (Grwpiau Archaeoleg ac Adeiladau)

### Beth yw ein Blaenoriaethau tymor byr (3 blynedd), tymor canolig (5 mlynedd) a thymor hir (10 mlynedd)?

### Cwestiwn Tri Gweithdy (Grwpiau Archaeoleg ac Adeiladau)

### Beth yw'r cyfleoedd a'r peryglon sy'n deillio o'r tri model gweithredu ar gyfer Cadw/y Comisiwn?

Egorodd y trafodaethau grŵp hyn ar ystod o flaenoriaethau ar gyfer meysydd gwaith thematig — Arolygu, Ymchwilio, Gwaith Ymchwil; Gwasanaethau Cynghori ar yr Amgylchedd Hanesyddol a Threftadaeth mewn Perygl — ar gyfer y cyfnodau amser a bennwyd a Chyfleoedd a Pheryglon ar gyfer pob maes gweithgarwch ar gyfer pob un o'r tri opsiwn sefydliadol dan ystyriaeth — h.y. Polisi a Dynodi; Arolygu ac Ymchwilio; Cyngor ar Gynllunio a Chyfundrefnau Cydsynio Statudol; Arolygon o Gyflwr Asedau Hanesyddol; Gwarchod a Chynnal Asedau Hanesyddol sydd yng Ngofal y Wladwriaeth; Gweithio mewn Partneriaeth; Cyfathrebu a Gwella a Chreu Cofnodion. Yna cafodd y meysydd gwaith hyn eu cynnwys yn y broses barhaus o ddatblygu ac asesu'r modelau.

## Allgymorth ac Ymgysylltu

### Ystafell drafod 1: Allbynnau Digidol a Chyllid Allanol

Yn gyffredinol — roedd teimlad cryf y byddai gweithio'n agosach o fudd i Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn fwy nag uno. Daeth yn amlwg hefyd nad oedd y naill sefydliad na'r llall yn gwbl ymwybodol o fanylion gwaith ei gilydd.

**Cyfleoedd uniongyrchol:**

- *Gwella'r llif gwybodaeth a hyrwyddo trafodaethau cynnar.*
- *Gwella hygyrchedd adnoddau digidol a rhwyddineb dod o hyd iddynt.*
- *Asesu posibiliadau a pheryglon codi tâl am wasanaethau amgylchedd hanesyddol.*

**Prif bynciau trafod:**

- Hyblygrwydd
- Maint a graddfa
- Allbynnau digidol
- Dehongli
- Cyllid allanol
- Moneteiddio gwasanaethau.

### Ystafell drafod 2: Ymgysylltu, Arddangosfeydd a Digwyddiadau

Mae llawer o weithgareddau allgymorth yn cyd-fynd yn dda â mwy o gydweithio rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol, ac mae hanes diweddar o gydweithio cadarnhaol rhwng y ddau gorff mewn digwyddiadau cenedlaethol. Roedd y grŵp trafod yn cydnabod bod synergeddau yn deillio o'n rolau yn y sector treftadaeth y gellid eu cryfhau. Teimlwyd bod y synergeddau hyn yn deillio o hunaniaeth unigryw'r ddau sefydliad a bod modd ehangu eu cryfderau trwy gydweithio.

Daeth yn amlwg unwaith eto nad yw'r naill sefydliad na'r llall yn gwbl ymwybodol o fanylion gwaith ei gilydd.

**Roedd y prif bynciau trafod yn canolbwyntio ar nodi cyfleoedd i weithio'n agosach:**

- Addysg
- Cyfleoedd hyrwyddo
- Gwirfoddoli a Sgiliau
- Digwyddiadau
- Cyhoeddiadau
- Arddangosfeydd.

Mae angen pwysleisio bod **cysylltiadau gwaith da iawn rhwng y ddau sefydliad yn y maes gwaith hwn eisoes yn bodoli**, a'u bod wedi ymgysylltu â'i gilydd yn llwyddiannus sawl gwaith yn y gorffennol. Cytunwyd y byddai cydweithio'n agosach o fudd sylweddol i'r ddau sefydliad. Teimlwyd y gallai uno'r ddau sefydliad erydu'r arbenigeddau ar wahân sy'n creu'r synergeddau sy'n hanfodol ar gyfer cydweithio'n llwyddiannus.

### Gweithdy 3: Rheoli Gwybodaeth

**Bu'r grŵp yn trafod y canlynol:**

Meysydd gorgyffwrdd rhwng cyfrifoldebau rheoli gwybodaeth a data'r ddau sefydliad.

Sut gellid rhannu neu ddosbarthu seilwaith ac adnoddau ar gyfer rheoli data a gwybodaeth ar draws y ddau gorff.

A oes arbenigeddau a gwybodaeth arbenigol ym maes rheoli gwybodaeth y gellid eu rhannu ar draws y ddau sefydliad?

A oes nodau datblygu cyffredin ym meysydd rheoli gwybodaeth, seilwaith a mynediad, ac a oes materion, peryglon a meysydd cyffredinol y dylid ymchwilio ymhellach iddynt.

Atodiad 5

# Crynodeb o adborth rhanddeiliaid allanol o'r gweithdai

Ysgrifennodd Cadeirydd y gweithgor at oddeutu 50 o sefydliadau, gan roi gwybod iddynt am yr adolygiad a'u gwahodd i gyfrannu.

Cynhaliwyd cyfarfodydd unigol gyda phedwar sefydliad sydd â'r berthynas waith agosaf â Cadw/y Comisiwn Brenhinol: Heneb, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru (cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ym mis Rhagfyr 2024) a'r Archif Genedlaethol (Chwefror 2025). Roedd y cyfarfod â'r Archif Genedlaethol yn canolbwyntio'n benodol ar faterion sy'n gysylltiedig â gofynion cyfreithiol a llywodraethu yn ymwneud â Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC).

Gwahoddwyd 21 sefydliad yn benodol i fynychu gweithdai rhanddeiliaid, gyda 19 yn derbyn y gwahoddiad. Mewn rhai achosion, daeth sawl aelod tîm o'r un sefydliad i'r gweithdai.

Cysylltwyd â 25 o sefydliadau i'w hysbysu am yr adolygiad a rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau a/neu fynychu gweithdai. Roedd rhai o'r rhain yn sefydliadau ymbarél sydd ag aelodaeth ehangach. Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd eu bod yn fodlon derbyn gwybodaeth am gynnydd y gwaith ond nad oeddent yn teimlo bod angen cymryd rhan yn uniongyrchol ar hyn o bryd.

Roedd pawb a fynychodd y cyfarfodydd wedi derbyn nodyn cefndir yn crynhoi hanes yr adolygiad a'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â'r opsiynau gwahanol ar gyfer y dyfodol: cadw'r trefniant presennol, gweithio'n agosach ac uno. Roedd y papur hwn yn nodi strwythur allweddol y gweithdai.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran mewn cyfarfodydd neu weithdai wedi gofyn am ymgysylltiad pellach wrth i'r adolygiad fynd rhagddo. Roedd nifer wedi anfon sylwadau pellach ar ôl y cyfarfodydd eu hunain.

Anfonwyd nodyn diweddaru byr at fynychwyr ar 19 Mawrth 2025.

### Negeseuon lefel uchel

Roedd pawb yn cytuno y dylai'r adolygiad roi blaenoriaeth i fuddiannau pobl ac amgylchedd hanesyddol Cymru yn hytrach na buddiannau sefydliadau unigol. Nid oedd unrhyw awgrym na fyddai hyn yn digwydd.

Cafodd gwybodaeth a phroffesiynoldeb staff Cadw a'r Comisiwn Brenhinol eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n eang. Roedd cyfranogwyr yn awyddus i sicrhau y byddai newidiadau yn gwella gwybodaeth a phroffesiynoldeb yn hytrach na'u peryglu.

Roedd y trafodaethau yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig, ac roedd llawer o'r pwyntiau a godwyd wedi'u cyflwyno fel cwestiynau agored yn hytrach na datganiadau o safbwyntiau sefydlog.

Ni chafwyd fawr o drafod na brwdfrydedd ynghylch canlyniad a fyddai'n gadael pethau yn union fel y maent ar hyn o bryd, h.y. y farn eang — ond nid unfrydol — oedd bod angen newid.

Teimlwyd bod angen rhagor o wybodaeth am sawl maes allweddol cyn penderfynu ai gweithio'n agosach neu uno oedd yr opsiwn a ffefrir: e.e. pa newidiadau a allai ddod i'r amlwg o ran sut mae Cadw yn gweithredu o ganlyniad i elfennau eraill o Adolygiad Cadw; beth yw'r gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â bod yn Fan Adneuo; perthynas Cadw a'r Comisiwn Brenhinol â sefydliadau treftadaeth/yr amgylchedd hanesyddol eraill yn y dyfodol; beth fyddai goblygiadau ariannol y naill opsiwn neu'r llall ac yn y blaen.

Roedd nifer o gyfranwyr o'r farn y dylai'r adolygiad presennol ystyried perthynas y ddau sefydliad â sefydliadau eraill sy'n gweithredu oddi mewn i'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Yn benodol, nodwyd bod sefydlu Heneb ym mis Ebrill 2024, **ar ôl** adroddiad yr adolygiad o drefniadau llywodraethu Cadw ym mis Rhagfyr 2023, wedi newid cyd-destun yr adolygiad hwn yn sylweddol. Os mai dim ond y berthynas rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol sy'n cael ei hystyried, roedd nifer yn dadlau y byddai angen gwneud rhagor o waith yn y dyfodol agos i ystyried y cyd-destun ehangach.

## Yr angen am ragor o wybodaeth sylfaenol i lywio'r adolygiad

Roedd nifer o randdeiliaid yn dymuno cael dadansoddiad llawn o swyddogaethau'r ddau sefydliad, gan ofyn am gyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu dadansoddiadau o'r fath. Nodwyd bod hon yn ffordd allweddol o sicrhau nad yw newidiadau yn y dyfodol yn anwybyddu unrhyw weithgareddau neu gyfrifoldebau allweddol yn anfwriadol — waeth a oedd prosiectau cyfredol ar waith mewn maes penodol ai peidio. (Mae'r dadansoddiad a gwblhawyd yn 2013–14 yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer y gwaith hwn).

## Materion i'w hystyried mewn cynigion ar gyfer y dyfodol

Datblygu **gweledigaeth/gweledigaethau a rennir** yng ngwir ystyr y gair, gyda gwerthoedd a nodau clir sy'n cael eu deall yn dda, waeth a yw'r ddau sefydliad yn aros ar wahân neu'n uno. Nodwyd bod hyn yn hanfodol er mwyn cynorthwyo gyda gwaith i ddileu unrhyw gyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd, nodi bylchau mewn darpariaeth a sicrhau bod cynlluniau yn gydnaws.

**Systemau sefydliadol a thechnegol cydnaws** wrth hwyluso mynediad cyhoeddus at ddata, darparu mewnbwn i'r system gynllunio, neu gynnal, cofnodi a chyhoeddi gwaith ymchwil.

**Cynnal hyblygrwydd** (yn enwedig yn achos y Comisiwn Brenhinol ar hyn o bryd) er mwyn ymateb yn gyflym i gyfleoedd a bygythiadau, profi a threialu dulliau newydd, yn enwedig mewn perthynas â thechnoleg ddigidol, a chwilio am ffynonellau cyllid allanol.

**Materion cyfreithiol a rheoleiddiol** gan gynnwys statws achredu archifau'r Comisiwn Brenhinol, yn ogystal â'i statws fel Man Adneuo.

Diogelu'r **gallu i eirioli** ar ran y sector.

Diogelu'r **cyllid** presennol a'r cyfle i ddadlau dros fwy o gyllid sylfaenol a chyllid ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

## Gweithdy 1: 9 Ionawr 2025

### Crynodeb o'r prif themâu

**1. Ffocws yr adolygiad:**

– Dylai'r adolygiad roi blaenoriaeth i fudd pennaf yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn hytrach na buddiannau sefydliadau unigol.
– Sicrhau budd pennaf pobl Cymru a'r angen i ystyried budd y cyhoedd a gwerth i drethdalwyr.
– Dylid cynnal ymarferiad mapio ynghylch ymarferoldeb er mwyn sicrhau'r ffordd gywir o weithredu. Dylid gwneud hyn ar draws y sector er mwyn ystyried y synergeddau â rhanddeiliaid a sefydliadau eraill.

**2. Hygyrchedd a Rheoli Data:**

– Heriau wrth gael mynediad at ddata a'r angen am gyfeirio cliriach a chyfuno cronfeydd data.
– Pwysigrwydd sicrhau bod data yn fwy hygyrch ac yn hawdd ei ddefnyddio.
– Problemau yn cael mynediad at ddogfennau a data sensitif, a'u rhannu.
– Yr angen i sicrhau bod cytundebau ffurfiol yn hwyluso rhannu data a chydweithio gwell.
– Pryderon yn ymwneud â rheoli cofnodion ac archifau, a'u hygyrchedd, os yw'r Comisiwn Brenhinol yn uno â Cadw.
– Cynnal mynediad i'r cyhoedd a sicrhau bod cofnodion yn parhau i fod yn hygyrch.

**3. Prosiectau a Chyllid ar Raddfa Fawr:**

– Pryderon am gynnal annibyniaeth a hyblygrwydd i chwilio am ffynonellau cyllido mawr.
– Llwyddiant prosiectau ar raddfa fawr fel Cherish a'r angen am fwy o fentrau o'r fath. Pe bai'r sefydliadau'n uno, a fyddai'n lleihau cyfleoedd cyllido yn y dyfodol a'r gallu i ymgymryd â phrosiectau mawr.

**4. Rheoli Archifau:**

- Materion yn ymwneud ag adneuo a hygyrchedd archifau.
- Ystyried gofynion deddfwriaethol a sicrhau nad yw newidiadau yn peryglu statws y Comisiwn Brenhinol fel man adneuo neu wasanaeth archif achrededig.
- Yr angen am brosesau mwy effeithlon a chydweithio gwell rhwng sefydliadau er mwyn rheoli archifau yn effeithiol.
- Yr angen am gysylltiadau a thryloywder gwell wrth reoli data ac archifau.

**5. Gwaith Ymchwil:**

- Cryfder y Comisiwn Brenhinol yw ei waith ymchwil a rhaid ystyried y perygl o golli'r elfen hon os yw'r ddau sefydliad yn uno.

**6. Profiad yn Lloegr:**

- Gwersi o'r penderfyniad i gynnwys Comisiwn Brenhinol o dan ymbarél English Heritage, gan gynnwys pwysigrwydd alinio amcanion a chynllunio'n ofalus ar gyfer uno.

**7. Trefniadau Gweithio Agosach:**

- Trafodaeth am fanteision ac anfanteision posibl cydweithio strategol ffurfiol rhwng y ddau sefydliad o gymharu â'u huno.
- Pryderon am gyfyngiadau adnoddau ac effeithiolrwydd cydweithio agosach heb gyllid ychwanegol.
- Manteision uno, gan gynnwys gwaith gwell, cydweithio cryfach, a safbwyntiau newydd.
- Heriau cynnal y manteision hyn mewn sefydliad gwasgaredig sydd â phatrymau gweithio gwahanol.
- Ystyried canlyniadau anfwriadol a chyfrifoldebau'r byd go iawn mewn unrhyw newidiadau sefydliadol.

**8. Ystyriaethau Ariannol a Gweinyddol:**

- Gwerthuso buddion ariannol posibl o safbwynt swyddfa gefn.
- Yr angen i feintioli buddion ariannol dros amser a lleihau cymhlethdod trwy uno systemau.
- Pwysigrwydd sbarduno arbedion effeithlonrwydd a dileu dyblygu.

**9. Eiriolaeth a Chyfyngiadau:**

- Cyfyngiadau posibl ar eiriolaeth a chyfathrebu os yw sefydliad yn closio at y llywodraeth.
- Peryglon colli swyddogaethau eiriolaeth.

**10. Gwasanaethau Cynghori Arbenigol ac Annibynnol:**

- Yr angen am wasanaeth cynghori archaeolegol annibynnol y tu allan i'r llywodraeth, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio.
- Diogelu gwaith y Comisiwn ym maes archaeoleg forwrol ac archaeoleg o'r awyr.
- Gwahaniaethau mewn ymatebion gan y Comisiwn Brenhinol a Cadw mewn perthynas â gwaith achos, gyda phryderon am ansawdd a chanfyddiad ymatebion os yw uno yn arwain at un ymateb.

**11. Strategaeth Ddigidol a Buddsoddiad:**

- Pwysigrwydd strategaeth ddigidol a buddsoddiad ym meysydd mynediad digidol, digideiddio, a deallusrwydd artiffisial.
- Manteision bod ag un sefydliad er mwyn dadlau'n gryfach o blaid buddsoddi mewn diogelwch data a'i reoli.

**12. Safonau a Chanlyniadau o Ansawdd:**

- Cynnal safonau a sicrhau canlyniadau o ansawdd gwell i gymdeithas.
- Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y sefydliadau dan sylw.

**13. Statws Elusennol:**

- Yr effaith bosibl ar statws elusennol y Comisiwn Brenhinol os caiff ei amsugno i Lywodraeth Cymru.
- Mynd i'r afael â'r mater hwn mewn trafodaethau a nodiadau yn y dyfodol.

**14. Sgwrs Adeiladol:**

- Gwerthfawrogiad am y drafodaeth adeiladol a defnyddiol.
- Cydweithio cadarnhaol a'r cyfle i adnewyddu, ailddyfeisio a diwygio'r sefydliad.

**15. Y Camau Nesaf:**

- Parhau â'r gweithdy er mwyn casglu rhagor o wybodaeth, safbwyntiau ac awgrymiadau.
- Ymgorffori adborth yn y broses a rhoi gwybod i gyfranogwyr am gynnydd a chanlyniadau.

## Crynodeb o'r prif themâu

**1. Budd Cyhoeddus, a'r effaith ar lawr gwlad ac mewn cymunedau:**

- Pwyslais ar fudd cyhoeddus sy'n cael ei ddarparu gan y ddau sefydliad.
- Ystyried budd cyhoeddus gwell trwy uno neu gydweithio posibl.
- Myfyrio ar yr effaith ar weithgareddau ar lawr gwlad ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Pwysigrwydd canfyddiad ac ymgysylltiad y cyhoedd ar lefel gymunedol.
- Pwysigrwydd ystyried llesiant cenedlaethau'r dyfodol o safbwynt gwaith treftadaeth. Sicrhau bod ymdrechion treftadaeth yn cyd-fynd â nodau cenedlaethau'r dyfodol ac yn darparu buddion parhaol.

**2. Gweledigaeth a Gwerthoedd Cyson:**

- Sicrhau bod gan y ddau sefydliad weledigaeth gyffredin ar gyfer cefnogi treftadaeth yn yr hirdymor.
- Mynd i'r afael â thensiynau a gwahaniaethau posibl rhwng gwerthoedd a nodau, fel newid yn yr hinsawdd, cydraddoldeb hil, iaith a diwylliant, a chydlyniant cymdeithasol.

**3. Canlyniadau Athronyddol ac Ymarferol Uno:**

- Ystyried agweddau athronyddol a moesegol ar uno'r sefydliadau.
- Sicrhau hunaniaeth sefydliadol unedig ar ôl y broses uno.

**4. Cyfyngiadau Cyllido ac Ariannol:**

- Eglurhad nad yw'r adolygiad yn cynnwys cyllid ychwanegol — ond nad gwneud arbedion ariannol yw'r nod.
- Angen rheoli disgwyliadau yn ymwneud â chymorth ariannol a buddion posibl.
- Angen am adnoddau ar y cyd a deall y pwysau ariannol ar y ddau sefydliad.
- Pryderon am y baich ariannol a'r gallu i roi prosiectau cydweithredol ar waith.

**5. Ymgynghori, Cyngor ar Bolisi a Chydsyniad Adeilad Rhestredig:**

- Swyddogaethau ymarferol y ddau sefydliad yn y system gynllunio. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn darparu sylwadau manwl ar geisiadau am Gydsyniad Adeilad Rhestredig, gan gynnwys cefndir a chyd-destun. Mae ymatebion Cadw yn fyrrach ac yn ffeithiol.

**6. Cyhoeddiadau:**

- Pwysigrwydd cyhoeddiadau sy'n cael eu cynhyrchu gan y Comisiwn Brenhinol. Yr angen i sicrhau bod gwaith o'r fath yn parhau ar ôl uno'r ddau sefydliad.

**7. Gwaith Ymchwil:**

- Pwysigrwydd integreiddio data ymchwil i brosesau cynllunio er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau.
- Pwysigrwydd sicrhau bod gwaith ymchwil yn cyfrannu at fuddion cyhoeddus ac yn cael ei gynnwys mewn nodau sefydliadol.
- Gwrthdaro buddiannau posibl mewn prosiectau ymchwil ar y cyd, yn enwedig os ydynt yn ymwneud â henebion cofrestredig.
- Prosesau gwneud penderfyniadau am ymyriadau a chloddiadau.

**8. Cofnod Henebion Cenedlaethol**

- Pryderon am oblygiadau uno'r Cofnod Henebion Cenedlaethol â rheolaeth y llywodraeth.

**9. Parhad y Status Quo V Newid:**

- Pryderon ynglŷn ag a fyddai trefniadau gweithio agosach ond yn arwain at barhad y status quo.
- Awydd am eglurder ynglŷn â'r newidiadau a buddion a fyddai'n deillio o weithio'n agosach.
- Bwriad i ffurfioli prosesau cyd-gynllunio er mwyn osgoi dyblygu a nodi bylchau.
- Defnyddio technegau rheoli prosiect ffurfiol er mwyn sicrhau atebolrwydd a chyflawniad.
- Pryderon am sefydlogrwydd a dyfodol aelodau staff y Comisiwn Brenhinol.
- Manteision posibl bod yn rhan o sefydliad mwy o ran maint ar gyfer datblygiad a sefydlogrwydd staff.

- Pryderon am swyddogaeth a hunaniaeth hirdymor y Comisiwn Brenhinol mewn sefydliad unedig.
- Pryderon am golli elfennau anstatudol a buddion cyhoeddus oherwydd pwysau ariannol.
- Anhawster darparu gwarantau absoliwt ar gyfer dyfodol sefydliadau unedig.
- Pwysigrwydd nodi a chadw swyddogaethau allweddol y ddau sefydliad.

**10. Cydweithredu a Strwythurau Strategol:**

- Pwysigrwydd sicrhau bod adnoddau a strwythurau ar waith ar gyfer cydweithredu strategol effeithiol.
- Enghreifftiau llwyddiannus o gydweithio ffurfiol a'r angen am ymrwymiad ar bob lefel. Mae Gwynedd ac Eryri yn cydweithio'n strategol ym maes twristiaeth a gellid ystyried y broses hon fel model.
- Cydnabod nad yw cydweithio yn niwtral o ran cost a bod angen adnoddau effeithiol.
- Pryderon am ddiffyg cydraddoldeb rhwng y ddau sefydliad a'r effaith ar gydweithio.
- Angen ystyried cydweithio â'r sector treftadaeth ehangach yng Nghymru.
- Cydweithio logistaidd haws gyda'r Comisiwn Brenhinol o safbwynt prifysgol.
- Pryderon am bwyslais newidiol Llywodraeth Cymru gan ddibynnu ar flaenoriaethau gwleidyddol a'r effaith ar gydweithio ym maes ymchwil.

**11. Cyllido ac Ychwanegedd:**

- Pryderon am effaith bosibl uno ar ffrydiau cyllido presennol. Pryderon am y gallu i wneud mwy gyda llai o adnoddau.
- Pryderon am gyllid dwbl ac ychwanegedd mewn prosiectau treftadaeth.
- Sicrhau nad yw prosiectau'n dyblygu mentrau a ariennir gan y llywodraeth.
- Yr angen i flaenoriaethu gweithgareddau a rheoli disgwyliadau am yr hyn y gellir ei gyflawni.

**12. Prosiectau Partneriaeth:**

- Enghreifftiau o brosiectau partneriaeth llwyddiannus (e.e. Prosiect Pen Dinas, prosiect CHERISH).
- Gwerthuso sut gallai'r modelau gwahanol — uno a chydweithio — effeithio ar effeithiolrwydd prosiectau.

**13. Ystyriaeth ehangach**

- Heriau wrth wneud penderfyniadau heb wybod canlyniad adolygiad ehangach Cadw.
- Pwysigrwydd cyfathrebu clir am ffurf a swyddogaeth, yn enwedig gydag adolygiadau parhaus.
- Cydnabod bod newidiadau mewn un maes yn gallu effeithio ar feysydd eraill, gan gymhlethu'r broses o wneud penderfyniadau.
- Mae uno yn gyfle i ailfeddwl ac adfywio'r gwasanaeth amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.
- Ystyried effaith newidiadau sefydliadol ar rannau gwahanol o'r sefydliad, gan gynnwys eiddo mewn gofal.

**14. Amseru a Tharfu:**

- Cydnabod y bydd angen amser i gyflwyno newidiadau sefydliadol, gan darfu ar wasanaethau hanfodol o bosibl. Bydd angen adnoddau ac amser uwch-reolwyr.
- Pwysigrwydd amseru newidiadau i leihau tarfu ar wasanaethau cyhoeddus.

**15. Cyllid a Rheoli Cofnodion:**

- Trin asesiadau a chofnodion ceisiadau am gyllid.
- Yr angen am eglurder ynglŷn â ble mae'r cofnodion hyn yn cael eu storio a sut maent yn cael eu rheoli.

**16. Effaith Uno ar Annibyniaeth a Gwasanaethau:**

- Pryderon am annibyniaeth y Comisiwn Brenhinol a'i allu i weithredu y tu allan i reolaeth y llywodraeth ar ôl uno.
- Cwestiynau am ddyfodol gwasanaethau hanfodol fel ffotograffiaeth o'r awyr a chyhoeddiadau.

**17. Proffil Rhyngwladol ac Uchelgais Ymchwil:**

- Pwysigrwydd cynnal proffil rhyngwladol cryf ar gyfer sefydliadau treftadaeth Cymru.
- Pryderon am effaith uno ar broffil ymchwil a nodweddion unigryw y Comisiwn Brenhinol.

**18. Diogelu at y Dyfodol ac Addasu:**

- Yr angen am rolau a swyddogaethau sy'n diogelu sefydliadau treftadaeth at y dyfodol.
- Ystyried sut gallai'r sector esblygu dros yr 20 mlynedd nesaf ac a fydd cynlluniau presennol yn cefnogi'r esblygiad hwn.

**19. Cyllid a Rheoli Cofnodion:**

- Trin asesiadau a chofnodion ceisiadau am gyllid.
- Yr angen am eglurder ynglŷn â ble mae'r cofnodion hyn yn cael eu storio a sut maent yn cael eu rheoli.

**20. Proffil Rhyngwladol ac Uchelgais Ymchwil:**

- Pwysigrwydd cynnal proffil rhyngwladol cryf ar gyfer sefydliadau treftadaeth Cymru.
- Pryderon am effaith uno ar broffil ymchwil a nodweddion unigryw y Comisiwn Brenhinol.

**21. Diogelu at y Dyfodol ac Addasu:**

- Yr angen am rolau a swyddogaethau sy'n diogelu sefydliadau treftadaeth at y dyfodol.
- Ystyried sut gallai'r sector esblygu dros yr 20 mlynedd nesaf ac a fydd cynlluniau presennol yn cefnogi'r esblygiad hwn.

**22. Mynediad at Wybodaeth:**

- Sicrhau mynediad am ddim at wybodaeth am dreftadaeth a rheoli costau ar yr un pryd.
- Sicrhau cydbwysedd rhwng creu incwm a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd.
- Yr angen am un porth i gael mynediad at gronfeydd data treftadaeth amrywiol.
- Sicrhau disgrifiad cynhwysfawr o ddata sy'n cael ei gadw gan y ddau sefydliad a sicrhau ei fod yn hygyrch.
- Pwysigrwydd sicrhau bod gwaith ymchwil yn hygyrch i'r cyhoedd. Anodd i unigolion gael gafael ar ymchwil, gwybodaeth a data gan y ddau sefydliad.

**23. Eiddo Deallusol a Rhoddion:**

- Trin hawliau eiddo deallusol a rhoddion yn ofalus er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.
- Sicrhau bod deunyddiau sy'n rhoddion yn cael eu defnyddio'n briodol ac nid at ddibenion masnachol anfwriadol.

**24. Dyfodol Cyhoeddi:**

- Ansicrwydd ynglŷn â dyfodol cyhoeddi, gyda chymysgedd o fformatau digidol a ffisegol.
- Potensial ar gyfer rhaglenni cyhoeddi ar y cyd a rhannu gwasanaethau er mwyn cefnogi'r sector treftadaeth.

**25. Dyrannu Adnoddau a Sylw:**

- Sicrhau cydbwysedd rhwng adnoddau a sylw i agweddau gwahanol ar waith treftadaeth.
- Sicrhau bod gwaith dogfennu ac ymchwil yn cael pwyslais digonol ochr yn ochr â rheoli eiddo.

**26. Synergeddau â Blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r Cyhoedd:**

- Archwilio sut mae cysylltiadau neu sefydliadau newydd yn gallu manteisio ar synergeddau â blaenoriaethau eraill y llywodraeth a'r cyhoedd.
- Sicrhau nad yw trefniadau newydd yn cael eu tanseilio gan flaenoriaethau eraill, ond eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar nodau treftadaeth.

Atodiad 6

# Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

Mae casgliadau cenedlaethol Cymru yn cael eu cadw gan ein tri chorff hyd braich diwylliant cenedlaethol — Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Brenhinol sy'n cadw Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC).

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn Fan Adneuo o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 ac mae'r cofnodion sy'n cael eu creu gan weithgareddau arolygu a chofnodi'r Comisiwn yn y CHCC yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth cofnodion cyhoeddus. Pe bai uno yn cael ei nodi fel y ffordd ymlaen o ddewis, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â'r gofynion statudol a nodir yn y Ddeddf.

Safon Achredu Gwasanaeth Archifau y DU yw'r meincnod a ddefnyddir i nodi bod CHCC yn storfa addas i gadw cofnodion o'r fath. Fel Man Adneuo, mae'n hanfodol bod CHCC yn parhau i gynnal ei statws achrededig. Felly, yn ogystal â'r gofynion statudol hyn, mae pum egwyddor allweddol wedi'u nodi ar gyfer CHCC. Mae angen asesu i ba raddau y bydd y tri opsiwn, sef busnes fel arfer, cydweithio agosach ac uno, yn gallu gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod penderfyniadau yn ymwneud â rheoli CHCC, gan gynnwys dewis deunydd i'w gadw'n barhaol ganddo, yn cael eu gwneud yn annibynnol ar unrhyw agenda neu ddylanwad gwleidyddol.
- Sicrhau bod modd prosesu a chatalogio casgliadau i safonau proffesiynol cydnabyddedig a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn hawdd i ymchwilwyr.
- Darparu mynediad ffisegol a digidol llawn i'r cyhoedd i CHCC.
- Darparu llety priodol o ran amgylchedd a diogelwch.
- Darparu diogelwch ariannol er mwyn cynnal a chadw'r cofnod yn effeithiol.
- Sicrhau bod CHCC yn parhau i gael ei reoli gan staff arbenigol â chymwysterau priodol sy'n cael cyfleoedd i gynnal a datblygu eu harbenigedd.

Trwy uno â'r llywodraeth, byddai CHCC (sy'n rhan hanfodol o'n casgliadau cenedlaethol) yn dod o dan ofal Llywodraeth Cymru. Os yw uno yn cael ei nodi fel y ffordd ymlaen o ddewis, mae'n hanfodol sefydlu trefniadau a mesurau amddiffyn priodol er mwyn sicrhau bod CHCC yn parhau i gael ei gynnal i'r safonau uchaf. Yn ogystal, rhaid sicrhau bod penderfyniadau yn ymwneud â rheoli CHCC yn cael eu gwneud yn annibynnol ar unrhyw agenda neu ddylanwad gwleidyddol, yn enwedig wrth ddewis deunydd i'w warchod yn barhaol gan CHCC. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod CHCC yn parhau i fodloni gofynion Man Adneuo penodedig o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

| | **Y trefniadau presennol** | **Trefniadau posibl os yw'r opsiwn i uno'r ddau sefydliad yn cael ei ddewis** |
|---|---|---|
| **Natur y cofnodion sy'n cael eu cadw** | Mae'r Comisiwn Brenhinol wedi cael ei benodi'n Fan Adneuo i gadw dosbarthiadau penodol o gofnodion cyhoeddus.<br><br>**Mae archif CHCC yn cynnwys:**<br><br>– Cofnodion cyhoeddus dynodedig sydd wedi'u hadneuo gyda'r Comisiwn Brenhinol o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 mewn fformatau traddodiadol a digidol (tua 70% o'i gasgliadau).<br><br>– Asedau a restrir ym mharagraff 2 o'r Atodlen i Gynllun 1964 ar gyfer rheoleiddio Cofnod Adeiladau Cenedlaethol Cymru a Sir Fynwy (tua 5%), y mae'r Comisiynwyr Brenhinol yn Ymddiriedolwyr Rheoli mewn perthynas â nhw. Mae'r elfen hon o CHCC wedi'i gwasgaru'n ffisegol ledled y casgliad, a byddai'n anodd (ac yn annymunol) gwahanu'r deunydd hwn oddi wrth weddill yr archif.<br><br>– Casgliadau (tua 25%) sydd wedi'u caffael dros amser o sefydliadau ac unigolion preifat naill ai trwy rodd neu adneuo (benthyciad hirdymor) mewn fformatau traddodiadol a digidol. | Byddai angen penodi Llywodraeth Cymru yn Fan Adneuo i gadw'r un dosbarthiadau o gofnodion. Byddai angen trosglwyddo CHCC yn ei gyfanrwydd adeg yr uniad.<br><br>*Cofnodion sydd â statws elusennol*<br><br>Mae'n bosibl y bydd goblygiadau mewn perthynas â chadw'r asedau a restrir ym mharagraff 2 o'r Atodlen i Gynllun 1964 ar gyfer rheoleiddio Cofnod Adeiladau Cenedlaethol Cymru a Sir Fynwy (tua 5% o CHCC). Y Comisiynwyr yw'r Ymddiriedolwyr Rheoli ar hyn o bryd. Deallir nad yw Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu fel ymddiriedolwyr elusen ar gyfer y rhan o CHCC sy'n ddarostyngedig i ymddiriedolaethau elusennol. Os felly, mae'n bosibl y bydd angen ymddiriedolwyr annibynnol. Mae angen deall y sefyllfa a'r risg yn well.<br><br>*Cofnodion sy'n cael eu rhoi gan unigolion preifat*<br><br>Mae angen archwilio hefyd i statws cofnodion a roddwyd i'r Comisiwn gan unigolion preifat (yn hytrach na chofnodion sydd wedi'u rhoi ar fenthyg). Nid yw'n glir a oes gan gofnodion a roddwyd i'r Comisiwn statws cofnodion cyhoeddus. Bydd angen cadarnhau hyn.<br><br>Hefyd, rydym yn ymwybodol y gallai unigolion preifat sydd wedi rhoi neu adneuo cofnodion i'r Comisiwn Brenhinol fel corff annibynnol bryderu os yw eu cofnodion yn cael eu trosglwyddo i'r 'llywodraeth'. Gallent wneud cais am i'r cofnodion hyn gael eu trosglwyddo i archif arall neu eu dychwelyd atynt. |
| **Llywodraethu** | Mae gan y Comisiynwyr gyfrifoldeb cyffredinol am waith y Comisiwn Brenhinol, gan gynnwys ei waith yn y meysydd canlynol:<br><br>– crynhoi, cynnal a churadu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru fel cofnod cenedlaethol sylfaenol o'r amgylchedd archeolegol a hanesyddol<br><br>– nodi, arolygu, dehongli a chofnodi'r holl adeiladau, safleoedd a henebion o ddiddordeb archaeolegol, pensaernïol a hanesyddol yng Nghymru neu yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru, er mwyn gwella a diweddaru Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru<br><br>– ymateb i anghenion statudol trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth sy'n berthnasol i gadwraeth y cyfryw adeiladau, safleoedd a henebion o ddiddordeb archaeolegol, pensaernïol a hanesyddol: trwy gasglu a chyfnewid data gyda deiliaid cofnodion eraill a darparu mynegai at ddata o ffynonellau eraill<br><br>– hyrwyddo'r defnydd cyhoeddus o wybodaeth sydd ar gael yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru trwy bob dull priodol. | Pe bai'r Comisiwn Brenhinol yn uno â Cadw, byddai Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am CHCC. Pa opsiwn bynnag sy'n cael ei ddewis o dan y drafodaeth 'fframwaith statudol', mae'n bwysig cadw brand CHCC er mwyn sicrhau parhad a darparu sicrwydd o ansawdd parhaus y gwasanaeth a fydd yn cael ei ddarparu.<br><br>Mae bwrdd gweithredu mewnol yn bodoli i gefnogi a chraffu ar gyfeiriad strategol, cynllun busnes a safonau Cadw, a'u monitro. Bwrdd cynghori yw hwn, ac ar hyn o bryd mae ganddo 4 aelod anweithredol sy'n cael eu penodi trwy system debyg i benodiadau cyhoeddus. Mae pob un o'r aelodau anweithredol yn cael eu recriwtio am eu harbenigedd ym meysydd fel adnoddau dynol, adeiladau hanesyddol, cyfranogiad y gymuned a chynnal safleoedd hanesyddol. O dan fodel unedig, rydym yn rhagweld y byddai aelodaeth y Bwrdd yn cael ei hehangu i gynnwys aelod/aelodau sydd ag arbenigedd perthnasol mewn rheoli archifau gan gynnwys eu cadw'n ddigidol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae staff y Comisiwn Brenhinol yn adrodd i'r Ysgrifennydd ac maent i gyd yn adrodd i Fwrdd y Comisiynwyr ar sut mae CHCC yn cael ei reoli. | Mewn strwythur unedig, mae'n bwysig sicrhau bod y staff arbenigol sy'n gofalu am CHCC yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau yn ymwneud â rheoli'r archif a dyrannu adnoddau. Rhaid i'r ystyriaeth hon gael ei hadlewyrchu mewn unrhyw strwythur staffio arfaethedig o dan delerau uno. |
| **Gofalu am Gasgliadau — Staffio** | Mae'n bwysig ystyried staff arolygu ac ymchwilio sy'n gyfrifol am lunio CHCC yn ogystal â staff y llyfrgell archifau ac ymholiadau cyhoeddus sy'n cynnal y cofnodion ac yn sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad atynt. Mae'r timau hyn yn gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd er mwyn hwyluso perthynas gadarn rhwng creu a churadu cofnodion ffisegol a digidol.<br><br>Mae cyfanswm o *** aelod o staff arbenigol sy'n rhannu cyfrifoldeb am CHCC.<br><br>Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn uchel ei barch ac mae'n perfformio'n gryf yn erbyn safon y Gwasanaeth Achredu Archifau. Rhaid cynnal y lefel hon o berfformiad. | Rhaid cynnal a datblygu'r lefel bresennol o arbenigedd staff er mwyn sicrhau bod gennym y staff arbenigol a'r arbenigedd i reoli cofnodion digidol cymhleth. Gall pob aelod o staff drosglwyddo i Lywodraeth Cymru o dan drefniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE).<br><br>Rhaid sicrhau bod CHCC yn parhau i gael ei reoli gan staff arbenigol â chymwysterau priodol sy'n cael cyfleoedd i gynnal a datblygu eu harbenigedd.<br><br>Mae'r gallu i barhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a rhwydweithiau treftadaeth ac archifol eraill yn allweddol i gynnal arbenigeddau staff a sicrhau bod CHCC yn parhau i fod yn gyfredol ac mor hygyrch â phosibl i ddefnyddwyr. |
| **Gofalu am Gasgliadau — Llety** | Mae'r Comisiwn Brenhinol a'i archifau wedi'u lleoli yn adeilad Llyfrgell Genedlaethol Cymru.<br><br>Mae'r trefniant hwn yn sicrhau bod CHCC yn cael ei gadw mewn cyfleusterau sy'n bodloni BS4971: 2017 a BS EN 16893: 2018. Hefyd, mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn gallu cynnig cyfleusterau arbenigol megis rhewi casgliadau ffotograffig nad ydynt ar gael mewn ystorfeydd eraill yng Nghymru. | Er mwyn ennill a chadw ei statws fel Man Adneuo, byddai angen i Lywodraeth Cymru fodloni'r Safon Achredu Archifau ar gyfer cofnodion analog a digidol.<br><br>O dan delerau'r uno, byddai CHCC yn aros yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ni fyddai prynu, adeiladu neu brydlesu adeilad arall yn Aberystwyth a chreu cyfleusterau storio arbenigol yn gost-effeithiol. Mae hyn yn wir hefyd am unrhyw gynigion i ailddatblygu swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth i gartrefu CHCC. Byddai'n rhy ddrud i ail-greu'r cyfleusterau sydd ar gael i'r Comisiwn Brenhinol yn y Llyfrgell Genedlaethol ar hyn o bryd (e.e. ystafell gadwraeth ar y safle, offer ar gyfer digido eitemau mawr, storio rhewgell ac ati).<br><br>Mae'r Comisiwn Brenhinol yn wynebu diffyg lle storio ffisegol. Mae hon yn broblem ehangach i'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae swyddogion wrthi'n trafod gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrth i gydweithwyr yno ddatblygu cynlluniau storio tymor byr a hirdymor a fydd yn ystyried anghenion CHCC.<br><br>Nid ydym yn rhagweld y bydd angen gofod ffisegol ychwanegol sylweddol ar CHCC ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Erbyn 2030, mae'n debygol y bydd y mwyafrif llethol o gofnodion sy'n cael eu hychwanegu at CHCC yn rhai gwreiddiol digidol, gyda chofnodion papur ad hoc yn cael eu derbyn o bryd i'w gilydd. Bydd angen buddsoddi mewn seilwaith digidol cadarn i wneud y gwaith hwn, a bydd angen i'r Comisiwn Brenhinol gefnogi cynnydd tuag at gyflawni safonau penodol a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer gofalu am gasgliadau digidol, fel Core Trust Seal yn ogystal ag Achrediad. |

| | | |
|---|---|---|
| **Defnyddwyr** | Mae cronfa ddata ar-lein y Comisiwn, Coflein, yn ganolog i'w ddarpariaeth ac i sicrhau mynediad ar gyfer ei ddefnyddwyr.<br><br>Mae ystafell chwilio ar gael yn adeilad y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth lle mae defnyddwyr yn gallu derbyn cymorth arbenigol i gael mynediad at CHCC.<br><br>Hefyd, mae'n darparu gwasanaeth ar gyfer adrannau cynllunio awdurdodau lleol.<br><br>Yn ystod yr adolygiad diwethaf o achrediad yr archif, cafodd staff y Comisiwn eu cymeradwyo am ystyried a bodloni anghenion defnyddwyr gwahanol, o gymunedau amrywiol i ddefnyddwyr busnes, gan arwain at fanteision cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol ledled Cymru. | Mae'n bwysig sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i dderbyn y lefel o wasanaeth sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd. Mae ymwelwyr yn y cnawd yn gallu cael mynediad hawdd at CHCC yn ystafell chwilio'r Comisiwn, a byddai hyn yn parhau pe bai CHCC a'i staff yn cael eu lleoli yn y Llyfrgell Genedlaethol.<br><br>Mae cydleoli casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru a CHCC o fudd gwirioneddol i ddefnyddwyr. Er bod gan y Comisiwn Brenhinol lyfrgell arbenigol, mae defnyddwyr yn gallu cael mynediad at adnoddau printiedig ac archifol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar yr un pryd ag ymweld â'r Comisiwn Brenhinol. Ar y llaw arall, gellir cyfeirio ymwelwyr â Llyfrgell Genedlaethol Cymru at adnoddau CHCC a gallant elwa ar gyngor staff y Comisiwn Brenhinol ar y safle. Byddai unrhyw newid i'r trefniant hwn yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr.<br><br>Mae gorgyffwrdd yma â'r ffrwd waith digidol/TG a sicrhau bod modd cael mynediad priodol at ddata yn ystod y cyfnod pontio ac fel rhan o 'busnes fel arfer' o dan uniad posibl. |
| **Costau CHCC Cysylltiedig** | Cyflogau — £421,000<br><br>Costau rhedeg (nwyddau traul archif, ac ati) — £11,000<br><br>*Llety (gan gynnwys storfeydd, ystafell ddarllen gyhoeddus a man gwaith archif) — £95,000<br><br>Archif ddigidol — £30,000<br><br>Systemau rheoli data a mynediad i'r cyhoedd — £40,572<br><br>Cyfanswm: £597,572 y flwyddyn<br><br>*Mae costau llety yn seiliedig ar y costau prydles blynyddol sy'n cael eu talu i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys gofod swyddfa lle mae gan staff eraill y Comisiwn Brenhinol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r gofod ar brydles yn cael ei ddefnyddio gan CHCC (h.y. storfeydd archif, gweithfannau, ystafell ddarllen a gofod swyddfa staff CHCC). | Byddai angen dyrannu cyllideb flynyddol ar gyfer CHCC oddi mewn i gyllideb Cadw a'i hadolygu er mwyn ystyried costau cynyddol e.e. codiadau cyflog, ac adolygiad o'r brydles gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru os bydd angen trefniadau ffisegol ychwanegol.<br><br>Yn ogystal â'r costau cyfredol o tua £600,000, mae angen ystyried yr argymhellion a wnaed ar gyfer y ffrwd waith ddigidol/TG e.e. mae'n bosibl y bydd cost prynu trwyddedau oddi mewn i'r llywodraeth yn cynyddu. Hefyd, mae angen adolygu'r capasiti presennol a chytuno ar 'safon gwasanaeth ofynnol' e.e. sicrhau ein bod yn gallu darparu'r gwasanaeth ymholiadau 5 diwrnod yr wythnos. |

| | | |
|---|---|---|
| **Fframwaith statudol** | *Y Warant Frenhinol*<br><br>Amlinellir cyfrifoldebau'r Comisiwn Brenhinol mewn perthynas â CHCC yn ei Warant Frenhinol. Mae hyn yn gosod CHCC ar yr hyn sy'n cyfateb i sail statudol.<br><br>*Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958*<br><br>Mae'r Comisiwn Brenhinol yn Fan Adneuo dynodedig o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, ac mae'r cofnodion sy'n cael eu creu gan weithgareddau arolygu a chofnodi'r Comisiwn yn y CHCC yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth cofnodion cyhoeddus. Hefyd, y Comisiwn yw'r man adneuo cymeradwy ar gyfer y ffeiliau pwnc a gynhyrchir gan Cadw. | Mae'r asesiad cychwynnol yn dangos bod heriau a risgiau yn gysylltiedig â phob opsiwn ac y bydd angen eu hystyried ymhellach.<br><br>*Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958*<br><br>Byddai angen i Lywodraeth Cymru fod yn Fan Adneuo dynodedig i gadw CHCC. Mae hyn yn golygu'r canlynol:<br><br>(i) Byddai angen i Lywodraeth Cymru wneud cais i gael ei phenodi'n fan adneuo gan yr Archifau Cenedlaethol er mwyn cadw'r dosbarthiadau penodol o gofnodion cyhoeddus sy'n cael eu cadw a'u casglu gan CHCC.<br><br>(ii) Byddai'r Archifau Cenedlaethol yn cynnal arolygiad i sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer cadw'r cofnodion a sicrhau mynediad atynt. Byddai hyn yn digwydd ar adeg diddymu'r Warant Frenhinol, ac felly'r Comisiwn Brenhinol fel endid.<br><br>(iii) Hefyd, byddai angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno cais llawn arall am Achrediad Gwasanaeth Archifau oherwydd y newidiadau sylweddol i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer CHCC. (Mae'n bosibl y bydd statws y Comisiwn Brenhinol yn cael ei leihau i Achrediad Dros Dro yn ystod y cyfnod pontio). |

## Modelau Fframwaith Posibl

### Opsiwn 1 — Trosglwyddo'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y Warant Frenhinol i Weinidogion Cymru drwy ddeddfwriaeth sylfaenol

Byddai hyn yn golygu diddymu'r Warant Frenhinol a throsglwyddo'r cyfrifoldebau a amlinellir ynddi i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf y Senedd. Byddai cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru yn cael eu dirprwyo i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am dreftadaeth.

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| – Byddai hyn yn rhoi sail statudol i CHCC. Gallai'r opsiwn hwn ystyried cyd-destun Cymru mewn ffordd na fyddai'r Warant Frenhinol yn ei wneud e.e. o ran y broses ddrafftio a'r effaith ar ddeddfwriaeth arall.<br>– Byddai cyfle wedyn i adolygu cynnwys y Warant Frenhinol ac, os yw'n briodol, diweddaru'r cyfrifoldebau ynddi cyn eu cynnwys mewn deddfwriaeth.<br>– Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 eisoes yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, felly mae cynsail debyg.<br>– Os cyflwynir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru a Cadw, gellid rhoi rhyddid gweithredol i swyddogion wrth reoli CHCC o ddydd i ddydd. Mae hyn yn debyg i sut mae Cadw yn cyflawni dyletswyddau statudol eraill, fel dynodi adeiladau hanesyddol. | – Mae gosod cyfrifoldebau statudol mewn deddfwriaeth yn un ffordd yn unig o sicrhau canlyniad dymunol. Os dewisir yr opsiwn hwn, rhaid ei ystyried yng nghyd-destun ehangach strwythurau staffio, trefniadau llywodraethu ac ati.<br>– Gallai gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru gael ei ystyried yn golled annibyniaeth sylweddol gyda gwleidyddion yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rheoli'r CHCC, gan gynnwys natur y casgliadau sy'n cael eu cadw. Gallai gweinyddiaethau gwahanol fabwysiadu agweddau gwahanol.<br>– Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd mewn perthynas â'r cofnodion sydd â statws elusennol a'r rhai a roddwyd gan unigolion preifat.<br>– Byddai angen i'r Llywodraeth nodi'r ddeddfwriaeth hon fel blaenoriaeth ar gyfer y tymor nesaf, a byddai angen pennu amser ar ei chyfer trwy ymarferiad cystadleuol. Pe bai'r flaenoriaeth hon yn cael ei nodi ar gyfer y llywodraeth nesaf, gallai gymryd hyd at 5 mlynedd i'w gweithredu. Byddai angen i ni archwilio trefniadau dros dro pe bai uno gweinyddol yn digwydd yn gyntaf.<br>– Mae perygl y byddai gwelliannau yn cael eu cyflwyno i'r Bil yn ystod y cyfnod craffu ac na fyddai'r Ddeddf yn cyflawni'r amcanion gwreiddiol. Gallai newidiadau deddfwriaethol digroeso eraill ddod o fewn cwmpas y Bil. |

### Opsiwn 2 — Cadw Gwarant Frenhinol, gyda'r Gweinidog perthnasol yn disodli'r Comisiynwyr

Byddai'r model hwn yn debyg i fodel y Comisiwn Brenhinol ar Lawysgrifau Hanesyddol yn dilyn ei uniad â'r Archifau Cenedlaethol. Byddai'r Warant Frenhinol yn parhau i fodoli ond byddai'r Comisiynwyr yn cael eu disodli gan un Comisiynydd. Y Prif Swyddog Gweithredol yw Comisiynydd yr Archifau Cenedlaethol. Yn ein hachos ni, byddem yn cadw Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru fel endid, a byddai Gweinidogion Cymru yn cyflawni swyddogaeth un Comisiynydd. Byddai'r dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru yn cael eu dirprwyo i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am dreftadaeth. Efallai y byddai'n bosibl dirprwyo hyn ymhellach i Bennaeth Cadw.

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| – Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod gan CHCC yr un sail statudol ag sydd ganddo ar hyn o bryd.<br>– Byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i fod yn endid cyfreithiol a allai ddod â rhywfaint o annibyniaeth e.e. byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i fod yn Fan Adneuo yn hytrach na Llywodraeth Cymru.<br>– Os cyflwynir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru a Cadw, gellid rhoi rhyddid gweithredol i swyddogion wrth reoli CHCC o ddydd i ddydd. | – Er bod Gweinidogion Cymru yn gallu ymgymryd â'r rôl Comisiynydd yn gyfreithiol, mae confensiynau cryf yn awgrymu y dylid diystyru'r opsiwn hwn. Y rheswm am hyn yw diffyg annibyniaeth ymddangosiadol, gan fod Comisiynwyr yn arbenigwyr yn eu meysydd yn gyffredinol. O ganlyniad, nid oes sicrwydd a fyddai hyn yn dderbyniol i'r Goron na Llywodraeth y DU.<br>– Byddai Gweinidogion yn cyflawni dwy rôl — eu rôl wleidyddol yn y llywodraeth a rôl y Comisiynydd. Gallent wynebu gwrthdaro buddiannau sylweddol mewn rhai amgylchiadau e.e. mewn trafodaethau heriol am effaith cyllidebau'r dyfodol.<br>– Gallai gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru gael ei ystyried yn golled annibyniaeth sylweddol gyda gwleidyddion yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rheoli'r CHCC, gan gynnwys natur y casgliadau sy'n cael eu cadw. Gallai gweinyddiaethau gwahanol fabwysiadu agweddau gwahanol. |

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| – Byddai angen dyroddi Gwarant newydd i ystyried y newidiadau yn nhrefniadau'r Comisiynydd. Byddai cyfle wedyn i adolygu a diweddaru'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y Warant bresennol (os oes angen).<br>– Ni fyddai unrhyw ofyniad i ymgymryd â phroses penodiadau cyhoeddus er mwyn penodi Comisiynwyr bob 5 mlynedd. | – Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd mewn perthynas â'r cofnodion sydd â statws elusen a'r rhai a roddwyd gan unigolion preifat. |

### Opsiwn 3 — Cynnal y Warant Frenhinol yn ogystal â grŵp bach o Gomisiynwyr a fyddai'n aelodau o Fwrdd Cadw

Byddai Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn parhau i fod yn endid cyfreithiol sy'n gyfrifol am CHCC. Byddai un neu ddau o Gomisiynwyr yn cyflawni'r dyletswyddau a amlinellir yn y Warant Frenhinol. Byddai'r grŵp bach o Gomisiynwyr yn gyfrifol am CHCC yn y pen draw a byddent yn aelodau o Fwrdd Cadw er mwyn sicrhau cysondeb â pholisi ehangach a chyfrannu at y trefniadau presennol ar gyfer cynghori'r Gweinidog sy'n gyfrifol am dreftadaeth. Byddai'r Comisiynwyr yn benodiadau cyhoeddus, a byddai'r Warant Frenhinol yn parhau i amlinellu'r trefniadau ar gyfer eu penodi, gan gynnwys hyd eu tymor.

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| – Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod gan CHCC yr un sail statudol ag sydd ganddo ar hyn o bryd.<br>– Byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i fod yn endid cyfreithiol gyda'i drefniadau llywodraethu ei hun.<br>– Byddai'r gofynion yn cael eu gosod ar Gomisiynwyr yn hytrach na Gweinidogion Cymru. Byddai hyn yn sicrhau bod penderfyniadau yn ymwneud â CHCC yn cael eu gwneud yn annibynnol ar agenda wleidyddol y cyfnod, a hynny gyda'r arbenigedd angenrheidiol.<br>– Byddai hyn yn creu annibyniaeth a pharhad, gan ddynodi'r Comisiwn Brenhinol, nid Llywodraeth Cymru, fel Man Adneuo o dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus.<br>– Byddai angen dyroddi Gwarant newydd er mwyn cynnwys y newidiadau. Byddai cyfle wedyn i adolygu a diweddaru'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y Warant bresennol (os oes angen), yn ogystal â'r dull o wneud penodiadau cyhoeddus.<br>– Byddai'r opsiwn hwn yn diwallu'r angen am Ymddiriedolwyr Rheoli ar gyfer y cofnodion sydd â statws elusennol, gyda'r grŵp bach o Gomisiynwyr yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn.<br>– Mae'r opsiwn hwn yn ymdrin â'r materion posibl a nodwyd mewn perthynas â chofnodion a roddwyd gan unigolion preifat, gyda Chomisiynwyr annibynnol yn gyfrifol am CHCC, yn hytrach na Gweinidogion Cymru. | – Byddai angen rhoi trefniadau a phrosesau llywodraethu clir ar waith er mwyn sicrhau bod aelodau staff sy'n gyfrifol am CHCC (gan gynnwys Pennaeth Cadw) yn adrodd yn briodol i'r Comisiynwyr.<br>– Mae'n bosibl y bydd gwrthdaro rhwng Pennaeth Cadw a'r Comisiynwyr, yn enwedig ar y mater o ddyrannu adnoddau. Mae angen i Bennaeth Cadw fantoli'r gyllideb ar draws holl rolau statudol Cadw.<br>– Hefyd, gallai'r Comisiynwyr wynebu gwrthdaro posibl rhwng buddiannau gan y byddai ganddynt rôl ddeuol fel Comisiynwyr ac aelodau o Fwrdd Cadw.<br>– Byddai Bwrdd dwy haen ar gyfer Cadw yn cael ei greu, gydag o leiaf un aelod o'r Bwrdd â chyfrifoldeb ychwanegol fel Comisiynydd, gan gael ei benodi / dalu'n wahanol i weddill aelodau'r Bwrdd.<br>– Gallai fod anghydbwysedd yng nghyfansoddiad y Bwrdd pe bai mwy nag un cynrychiolydd ar gyfer gwaith CHCC / gwaith arolygu ac ymchwilio.<br>– Mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn hwn yn dderbyniol i Weinidogion Cymru / Cadw oherwydd y cymhlethdod ychwanegol a fyddai'n deillio ohono a'r canfyddiad o anghydbwysedd rhwng dyletswyddau statudol eraill Cadw. |

**Opsiwn 4 — Diddymu'r Warant Frenhinol a throsglwyddo'r cyfrifoldebau a amlinellir ynddi i Lywodraeth Cymru. Hefyd, cynnwys CHCC yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Pennaeth Cadw a'r Gweinidog**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| – Ni fyddai unrhyw gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â CHCC, a fyddai'n darparu hyblygrwydd i addasu ac ymateb i gyd-destunau a blaenoriaethau sy'n newid.<br>– Gallai'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n cael ei lunio rhwng Gweinidogion a Phrif Swyddog Gweithredol Cadw ddarparu mesur diogelu gan y bydd yn cyflwyno proses annibynnol o wneud penderfyniadau. Hefyd, fe allai ddarparu dull rheoli symlach, ac mewn rhai achosion mwy effeithiol, gan gynnwys ymgorffori'r angen am staff arbenigol priodol.<br>– Byddai'r broses o drosglwyddo CHCC yn symlach gan na fydd angen deddfwriaeth neu Warant Frenhinol newydd. | – Byddai CHCC yn colli ei statws statudol ac felly unrhyw amddiffyniadau cyfreithiol. Gallai cyfansoddiad CHCC newid yn gyfan gwbl. Byddai'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n dod i'r amlwg rhwng Prif Swyddog Gweithredol Cadw a Gweinidogion yn darparu rhywfaint o amddiffyniad rhag penderfyniad gan y Gweinidog i newid natur yr archif neu ei dileu yn gyfan gwbl. Yn ogystal, byddai angen i CHCC fodloni safonau achredu'r Archifau Cenedlaethol.<br>– Ni fyddai unrhyw ddiffiniad na chwmpas clir ar gyfer CHCC, sy'n golygu y byddai'n llawer anoddach ei reoli a cheisio ennill achrediad yn y dyfodol.<br>– Ni fyddai'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn datrys y ffaith fod gan elfennau o Gofnodion Adeiladau Cenedlaethol CHCC statws elusennol. |

Atodiad 7

# Cydweithio agosach

## Cefndir

Bu'r Gweithgor ystyried dau fath o gydweithio agosach, un yn ysgafnach ei gyffyrddiad na'r llall. Byddai'r ddau yn gofyn am amser ac ymdrech gan uwch reolwyr a staff o bob sefydliad, felly byddai ganddynt gostau cyfle. Er mwyn cyflawni prif fanteision cydweithio agosach, byddai angen cyllid ychwanegol i gefnogi'r prosiectau ar y cyd y mae'r ddau sefydliad yn cydnabod y byddent o fudd gwirioneddol i'r sector. Nodwyd yn glir y byddai'n rhaid gwneud cais am gyllid ychwanegol o'r fath mewn amgylchedd cyllido hynod gystadleuol, ac na ellir rhagdybio y bydd cyllid ar gael.

## Model cydweithio strategol symlach

Nod cydweithio strategol rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn Brenhinol) fyddai sicrhau bod swyddogaethau hanfodol yn fwy eglur, yn symlach ac yn fwy cynaliadwy i'r ddau sefydliad ac yn eu perthynas â'r sector amgylchedd hanesyddol ehangach. Nod cydweithio agosach fyddai cyflawni'r canlynol:

- Sefydliadau arbenigol ategol sy'n gwneud cyfraniad pwysig at wasanaethau amgylchedd hanesyddol cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru
- Nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer partneriaethau ehangach i ddarparu gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cenedlaethol effeithlon yng Nghymru
- Trefniadau ar gyfer gweithlu mwy cynaliadwy sydd â sgiliau arbenigol wedi'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Byddai Cadw a CBHC yn gweithredu fel endidau ar wahân ond ategol sy'n rhannu nodau cytûn. Byddai cydweithio yn canolbwyntio ar feysydd lle mae ganddynt gyfrifoldebau tebyg, a byddai fframwaith strategol a chytundebau ffurfiol yn arwain y cydweithio.

| | Cydweithio Agosach |
|---|---|
| **Fframwaith statudol** | Ni fyddai unrhyw newid i fframweithiau a chyfrifoldebau statudol Cadw a'r Comisiwn Brenhinol.<br>**Byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i weithredu yn unol â'r canlynol:**<br>– Y Warant Frenhinol<br>– Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958<br>– Y llythyr cylch gwaith a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a deddfwriaeth berthnasol arall.<br>**Byddai Cadw yn parhau i weithredu yn unol â'r canlynol:**<br>– Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a gofynion statudol eraill a chytundebau rhyngwladol<br>– Blaenoriaethau gweinidogion fel y'u nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. |
| **Cynllunio Busnes** | **Mae'r rhan fwyaf o waith arbenigol y ddau sefydliad yn parhau heb unrhyw angen am gydgynllunio, er enghraifft:**<br>– Mae Cadw yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer sector yr amgylchedd hanesyddol, yn gweithredu'r eiddo mewn gofal, yn darparu gwasanaethau i ymwelwyr, yn gwneud gwaith cadwraeth, yn ymateb i ymgynghoriadau statudol, ac yn darparu cyngor a grantiau cadwraeth<br>– Drwy waith maes, mae'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i reoli a gwella'r casgliad cenedlaethol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, gan dderbyn deunydd o sawl ffynhonnell.<br>**Byddai'r cydweithio presennol yn parhau, er enghraifft:**<br>– Archifau — byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i reoli archifau Cadw fel rhan o'i swyddogaeth fel Man Adneuo ar gyfer Cofnodion Cyhoeddus<br>– Enwau lleoedd — byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i gael ei ariannu i gynnal a datblygu'r gofrestr enwau lleoedd ar ran Llywodraeth Cymru<br>– Byddai'r Comisiwn yn parhau i fonitro'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol statudol ac yn rhoi cyngor i Cadw ar sut i'w reoli.<br>**Mewn adolygiad cychwynnol o gydweithio strategol, byddai Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn cytuno ar sut i rannu swyddogaethau penodol rhyngddynt er mwyn darparu mwy o eglurder i ddefnyddwyr ac osgoi unrhyw ganfyddiad o ddyblygu neu gystadleuaeth. Pan fydd un sefydliad yn dibynnu ar y llall ar gyfer gweithrediadau o'r fath yn y dyfodol, byddai Cytundeb Lefel Gwasanaeth parhaus yn cefnogi'r newid. Mae meysydd posibl yn cynnwys:**<br>– Ymgysylltu â'r cyhoedd a dysgu gydol oes<br>– Trwyddedu delweddau a llyfrgell delweddau<br>– Cyhoeddiadau<br>– Cyngor ar gynllunio<br>– Adeiladau mewn perygl; a<br>– Hyfforddiant ar gyfer y sector.<br>Fodd bynnag, o ystyried y pwysau presennol ar lefelau cyllid, bydd yn anodd nodi adnoddau perthnasol i'w trosglwyddo i'r meysydd hyn sy'n brin o adnoddau.<br>**Mae cydlynu strategol parhaus yn mynd i'r afael â safbwyntiau cyffredin y sector ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau ar-lein, ymchwil a chofnodi, ceisio sicrhau'r defnydd gorau posibl o adnoddau ledled prifysgolion, Heneb, Amgueddfa Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdodau lleol yn ogystal â Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. Hefyd, nodi cyfleoedd a phartneriaethau ariannu. Gallai dyheadau gynnwys:**<br>– Cwmpasu a datblygu gwasanaeth data cenedlaethol cyffredin ar gyfer gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol sy'n arwain at fanteision mawr o ran ansawdd gwasanaethau a symleiddio arferion golygyddol ac arbedion effeithlonrwydd.<br>– Prosiectau cydweithredol yn ymwneud ag agweddau ar dreftadaeth Cymru sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gyda chanlyniadau lluosog o ran diogelu statudol, nodi blaenoriaethau cadwraeth a gwella dealltwriaeth y cyhoedd. |

| | |
|---|---|
| **Llywodraethu** | Mae Prif Weithredwr y Comisiwn Brenhinol a Phrif Weithredwr Cadw yn cydweithio i ddatblygu/ ymgynghori ar waith cynllunio busnes, gan gynnwys Cytundebau Lefel Gwasanaeth, nodi prosiectau ar y cyd a dyrannu cyllid a rhannu cyfrifoldeb am gyflwyno'r prosiectau. Mae llwyddiant cydweithio yn dibynnu ar berthynas adeiladol a chyd-gefnogol ar y lefel hon sy'n cynnwys dogfennaeth glir o'r canlyniadau disgwyliedig. Byddai arweinwyr nawdd o'r Is-adran Diwylliant yn sicrhau cysondeb â'r trefniadau nawdd.<br><br>Mae comisiynwyr yn parhau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Warant Frenhinol a chynllun gweithredol blynyddol y Comisiwn Brenhinol. Mae Bwrdd Cadw yn cynghori ar gyflawni cynllun gweithredol Cadw. Mae'r ddau Fwrdd yn cyfarfod ar y cyd i ystyried a chymeradwyo cynigion sy'n deillio o'r adolygiad cychwynnol o gydweithio strategol.<br><br>Byddai Ysgrifennydd y Comisiwn yn parhau i fod yn atebol i'r Comisiynwyr, a fyddai hefyd yn parhau i adrodd i Lywodraeth Cymru drwy'r Tîm Nawdd Diwylliant.<br><br>Byddai Prif Weithredwr Cadw yn parhau i fod yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am Ddiwylliant a Threftadaeth am y defnydd priodol o arian cyhoeddus ac am reoli staff Cadw yn effeithiol er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion a osodir gan Weinidogion Cymru. |
| **Nawdd** | Mae gan y ddau sefydliad broblemau capasiti o ran cyflawni eu cyfrifoldebau craidd presennol. Dylai rhywfaint o drosglwyddo swyddogaethau rhyngddynt, fel y rhagwelir uchod, ddarparu rhai cyfleoedd i ganolbwyntio adnoddau ar ganolfannau rhagoriaeth presennol a fyddai'n helpu i ddiogelu sgiliau arbenigol ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr arbedion yn fach iawn, os gellir eu nodi, ac efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol i wella gwasanaethau presennol neu ddatblygu prosiectau ychwanegol.<br><br>Gallai capasiti ychwanegol gefnogi cydweithio agosach a byddai'n darparu mwy o gyfleoedd i rannu adnoddau ar draws prosiectau, gan gefnogi datblygiad staff yn y ddau sefydliad a throsglwyddiad sgiliau. Yn amodol ar adnoddau, gallai fod mwy o gyfleoedd i staff weithio ar draws ffiniau'r sefydliadau, mwy o gyfleoedd i ddatblygu gyrfa, rhannu dysgu a diogelu sgiliau arbenigol. |
| **Defnyddwyr** | Byddai defnyddwyr yn troi at y Comisiwn Brenhinol ar gyfer gwasanaethau archifau ac ymchwil, ac at Cadw ar gyfer polisi treftadaeth, gwasanaethau i ymwelwyr, cyngor ar gadwraeth, grantiau a chymorth. Gallai gwerth ychwanegol ddeillio o brosiectau ar y cyd ychwanegol. |
| **Costau Cysylltiedig** | Ni ragwelir unrhyw gostau ychwanegol o dan y model hwn, ac eithrio costau cyfle amser staff wrth sefydlu trefniadau gweithio newydd a chynnal cyfarfodydd ar y cyd rheolaidd. Byddai cyllidebau ar wahân gan y ddau sefydliad i'w rheoli fel y bo'n briodol. Byddai'r Comisiwn Brenhinol yn rhydd i wneud cais am gyllid allanol a datblygu partneriaethau gyda'r sectorau academaidd, gwirfoddol a chyhoeddus. Byddai Cadw yn gwneud cais am arian yn y ffordd arferol a gallai ystyried gwneud cais ar y cyd â'r Comisiwn a chyrff eraill ar gyfer prosiectau mawr sy'n cwmpasu'r sector cyfan megis gwella systemau cofnodion ar y cyd. |

Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) o sut gallai'r Comisiwn Brenhinol a Cadw ddarparu gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru trwy gydweithio ffurfiol.

## Cryfderau

Mae pob sefydliad yn gallu canolbwyntio ar gyflawni ei swyddogaeth arbenigol ategol gydag adnoddau pwrpasol.

Yn yr un modd â'r casgliadau cenedlaethol eraill, mae'r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn parhau i fod y tu allan i reolaeth y llywodraeth.

Mae annibyniaeth systemau TG y Comisiwn Brenhinol y tu allan i rwydwaith Mewnrwyd Diogel y Llywodraeth yn darparu'r hyblygrwydd i ddatblygu a defnyddio'r ystod o systemau a gwasanaethau TG sy'n benodol i swyddogaethau'r Comisiwn Brenhinol ac i weithio gyda phartneriaid eraill.

Byddai llawer o ddefnyddwyr yn hapus pe bai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i fod yn annibynnol fel corff casglu ac ymchwil, er y byddai pryderon am ei allu i gyflawni yn parhau.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn cael ei ystyried yn llais gwerthfawr, annibynnol ar y llywodraeth, i eirioli dros yr amgylchedd hanesyddol.

## Gwendidau

Mae'r ddau sefydliad yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol o dan bob model, ond mae'r model hwn yn galluogi rhai arbedion effeithlonrwydd ac yn ail-ddosbarthu cyfrifoldebau ar raddfa fach o fewn y sefydliadau.
Byddai angen adnoddau ychwanegol ar gyfer prosiectau cydweithio newydd.

## Cyfleoedd

Mae dull cydweithio yn gallu arwain at wasanaeth symlach a mwy effeithiol a mwy o eglurder ar gyfer defnyddwyr.

Gellid ailystyried neu ehangu cydweithio i gynnwys gwasanaethau neu bartneriaethau ychwanegol, gan gynnwys Heneb ac aelodau Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol.

Cyfleoedd i staff a gwirfoddolwyr rannu rhaglenni hyfforddi, gan fanteisio ar gryfderau ac arbenigedd y ddau sefydliad.

Mae mentrau ar y cyd yn gallu meithrin mwy o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad gan y cyhoedd, gan fanteisio ar gryfderau'r ddau sefydliad ym meysydd addysg, digwyddiadau a chyhoeddiadau.

Cyfleoedd ar gyfer cydweithio â rhaglenni cyllido a chyrff academaidd a'r sector treftadaeth yng Nghymru ac yn rhyngwladol, gan gynyddu cwmpas ac effaith prosiectau.

Mae annibyniaeth y Comisiwn Brenhinol yn gyfle iddo wneud cais am ffynonellau incwm o sianeli gwahanol.

## Bygythiadau

Byddai ansicrwydd parhaus ynglŷn â dyfodol y Comisiwn Brenhinol yn parhau i effeithio ar forâl staff a gallu'r Comisiwn Brenhinol i recriwtio a chadw talent arbenigol.

## Model llawn cydweithio agosach

Nod cydweithio strategol rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn Brenhinol) fyddai sicrhau bod swyddogaethau hanfodol yn gynaliadwy yn y dyfodol. Trwy gydweithio agosach, byddem yn hoffi rhoi'r canlynol ar waith mewn perthynas â Cadw a'r Comisiwn Brenhinol:

- Y strwythur ar gyfer gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru.
- Nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cenedlaethol effeithlon yng Nghymru.
- Trefniadau ar gyfer gweithlu cynaliadwy sydd â sgiliau arbenigol wedi'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Byddai Cadw a CBHC yn gweithredu fel endidau ar wahân ond ategol sy'n rhannu nodau cytûn. Byddai cydweithio yn canolbwyntio ar feysydd lle mae eu cyfrifoldebau'n croestorri, a byddai fframwaith strategol a chytundebau ffurfiol yn arwain y cydweithio.

| | **Cydweithio Agosach** |
|---|---|
| **Fframwaith statudol** | Ni fyddai unrhyw newid i fframweithiau a chyfrifoldebau statudol Cadw a'r Comisiwn Brenhinol.<br>**Byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i weithredu yn unol â'r canlynol:**<br>– Y Warant Frenhinol<br>– Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958<br>– Y llythyr cylch gwaith a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a deddfwriaeth berthnasol arall.<br>**Byddai Cadw yn parhau i weithredu yn unol â'r canlynol:**<br>– Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a gofynion statudol eraill.<br>– Blaenoriaethau gweinidogion fel y'u nodir yn eu rhaglen lywodraethu. |
| **Cynllunio Busnes** | – Byddai Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn gweithio i nodi meysydd ar gyfer cydweithio ac yn paratoi amcanion clir i gwmpasu cyfnod o 3 i 5 mlynedd (i'w gytuno gan y ddau Fwrdd a'r Gweinidog). Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r ail amcan a amlinellwyd yn y paragraff uchod, sef cytuno ar nodau ac amcanion i sicrhau gwasanaethau effeithlon ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol cenedlaethol yng Nghymru (mewn perthynas â Cadw a'r Comisiwn Brenhinol).<br>– Byddai cynllun busnes ar y cyd yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn i gefnogi'r meysydd a nodwyd ar gyfer cydweithio a'r amcanion 3 i 5 mlynedd cyffredinol. Byddai'r cynllun ar y cyd yn nodi'n glir pa ffrydiau gwaith fyddai'n cael eu cyflawni gan Cadw, y Comisiwn Brenhinol neu ar y cyd. Hefyd, byddai'r cynllun yn nodi unrhyw ddyraniad cyllideb gan Weinidogion Cymru neu gan y naill sefydliad neu'r llall i gyflawni'r canlyniadau.<br>– Byddai'r cynllun busnes ar y cyd yn rhan o gynlluniau gweithredol blynyddol unigol Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. Byddai cynllun gweithredol ehangach Cadw yn cwmpasu meysydd y tu hwnt i gydweithio â'r Comisiwn Brenhinol e.e. cynlluniau masnachol, cadwraeth y safleoedd sydd yng ngofal Gweinidogion Cymru, gwasanaethau i ymwelwyr, cyfrifoldebau corfforaethol. Byddai cynllun gweithredol ehangach y Comisiwn Brenhinol yn mynd i'r afael â'i amcanion corfforaethol ei hun, unrhyw agweddau ar ymateb i lythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru sydd y tu allan i'r broses gydweithio â Cadw, a hyblygrwydd i fwrw ymlaen â gwaith sy'n bodloni'r Warant Frenhinol ond sydd y tu allan i'r bartneriaeth â Cadw.<br>– Byddai Byrddau Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn cymeradwyo'r cynllun busnes ar y cyd yn ogystal â'r cynllun gweithredol blynyddol ehangach ar gyfer eu cyrff priodol. Byddai'r cynlluniau gweithredol (gan gynnwys y cynllun busnes ar y cyd) hefyd yn cael eu hanfon at y Gweinidog i gael eu cymeradwyo. Dim ond unwaith y byddai angen gofyn am gymeradwyaeth i'r cynllun busnes ar y cyd. |

**Llywodraethu**

Mae *Comisiynwyr* yn parhau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Warant Frenhinol a chynllun gweithredol blynyddol y Comisiwn Brenhinol, gan gynnwys agweddau ar y cynllun busnes ar y cyd a ddyrannwyd yn benodol i'r Comisiwn Brenhinol.

Mae *Bwrdd Cadw* yn cynghori ar gyflwyno cynllun gweithredol Cadw a'r agweddau ar y cynllun busnes ar y cyd a ddyrannwyd yn benodol i Cadw.

Mae *Prif Weithredwr y Comisiwn Brenhinol a Phrif Weithredwr/Dirprwy Gyfarwyddwr Cadw* yn cydweithio i ddatblygu'r cynllun busnes ar y cyd, gan gynnwys nodi prosiectau ar y cyd, dyrannu cyllid a rhannu cyfrifoldeb am gyflawni'r prosiectau. Byddai angen rhyngweithio'n ffurfiol ac yn anffurfiol i wneud hyn. Byddai arweinwyr nawdd yr Is-adran Diwylliant yn gweithio i gefnogi'r berthynas rhwng y ddau Brif Weithredwr a sicrhau cysondeb rhwng y prosesau sy'n sylfaen i bartneriaeth Cadw/ Y Comisiwn Brenhinol a'r trefniadau nawdd.

*Cadeiryddion y Byrddau* — Byddai'r amcanion ar y cyd ar gyfer Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn cael eu rheoli o ddydd i ddydd gan y Prif Weithredwr, y Comisiwn Brenhinol, a'r Prif Weithredwr, Cadw, a'u staff. Hefyd, byddent yn cael eu monitro gan gyfarfodydd rheolaidd rhwng Cadeiryddion y ddau Fwrdd a fyddai'n cynrychioli barn ehangach eu Byrddau. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, byddai'r Cadeiryddion hefyd yn myfyrio ar sut mae'r model cydweithio agosach yn gweithio.

Cynhelir *cyfarfodydd ar y cyd o Fwrdd Cadw a'r Comisiynwyr* o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu'r cynllun busnes ar y cyd blynyddol, myfyrio ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn flaenorol a monitro sut mae'r model cydweithio agosach yn gweithio.

Gellid cynnal cyfarfodydd ychwanegol rhwng y Byrddau er mwyn monitro cynnydd yn erbyn cyflawni'r cynllun a nodi meysydd lle byddai cydweithio pellach yn bosibl. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld mai cyfarfodydd rheolaidd rhwng Cadeiryddion y Byrddau yn dilyn cyfarfodydd y Byrddau unigol fyddai'r prif fforwm ar gyfer trafodaethau o'r fath ac ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y cydamcanion.

Byddai *Ysgrifennydd y Comisiwn* yn parhau i fod yn atebol i'r Comisiynwyr. Hefyd, byddai'n parhau i adrodd i Lywodraeth Cymru trwy'r Tîm Nawdd Diwylliant. Byddai'r Ysgrifennydd yn mynychu cyfarfodydd Arweinyddiaeth chwarterol Cadw, a byddai cyfarfodydd rhwng Uwch Dimau Gweithredol Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn cael eu sefydlu i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun busnes ar y cyd a myfyrio ar sut mae'r model cydweithio agosach yn gweithio. Gellid cynnal y cyfarfodydd hyn bob mis neu bob deufis. Byddai Prif Weithredwyr Cadw a'r Comisiwn Brenhinol yn cymryd eu tro i gadeirio'r cyfarfodydd ar y cyd, a byddai Cyfarwyddwr Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Ddiwylliant a Threftadaeth yn mynychu/cadeirio ddwywaith y flwyddyn i ddarparu trosolwg a her ychwanegol. Fel y nodir isod, gall aelod o'r tîm nawdd fynychu'r cyfarfodydd hyn fel arsylwr er mwyn helpu i sicrhau aliniad a chysondeb o ran dealltwriaeth.

Byddai *Prif Weithredwr Cadw* yn parhau i fod yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am Ddiwylliant a Threftadaeth (y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg yw'r unigolyn hwn ar hyn o bryd) am y defnydd priodol o arian cyhoeddus ac am reoli staff Cadw yn effeithiol er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion a osodir gan Weinidogion Cymru.

**Nawdd**

Byddai'r tîm Nawdd Diwylliant yn parhau i fod yn gyfrifol am swyddogaeth nawdd y Comisiwn Brenhinol. Byddai'r cytundeb fframwaith yn parhau i fod ar waith, gan amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r Comisiwn Brenhinol a Llywodraeth Cymru, a'r broses lywodraethu allweddol. Efallai y bydd angen ei ddiweddaru er mwyn cydnabod y berthynas waith agosach â Cadw.

Byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i dderbyn Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth, a byddai'n rhaid i'r Comisiwn benderfynu sut i gyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn y llythyr. Rydym yn rhagweld y byddai llawer o'r blaenoriaethau yn cael eu cyflawni trwy'r cynllun busnes ar y cyd ac felly dylent fod yn rhan allweddol o drafodaethau gyda Cadw fel rhan o'r prosesau cynllunio busnes ar y cyd.

Byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i dderbyn llythyr ariannu blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gyflawni cyfrifoldebau statudol y Comisiwn yn ogystal â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Llythyr Cylch Gwaith. Mae hyn yn cynnwys elfennau'r cynllun busnes ar y cyd sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Comisiwn Brenhinol yn ogystal â helpu i gyflawni amcanion ar y cyd gyda Cadw. Byddai'n rhaid i'r Comisiwn Brenhinol benderfynu sut mae'n dyrannu ei gyllid.

Byddai'r tîm nawdd yn parhau i gyfarfod â'r Comisiwn Brenhinol bob chwarter i drafod y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellir yn y Llythyr Cylch Gwaith a'r amcanion a amlinellir yn ei gynllun gweithredol. Ar wahân i fyfyrio'n gyffredinol ar sut mae cyfraniad y Comisiwn Brenhinol at y cynllun busnes ar y cyd yn cefnogi'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Llythyr Cylch Gwaith ac amcanion ehangach y Comisiwn Brenhinol, ni fyddai'r cyfarfodydd nawdd chwarterol yn fforwm i drafod manylion y cynllun busnes ar y cyd â Cadw. Gall aelod o dîm Cadw fynychu'r cyfarfodydd chwarterol fel arsylwr. Yn ei dro, gall aelod o'r tîm nawdd fynychu cyfarfodydd rhwng Uwch Dimau Gweithredol Cadw a'r Comisiwn Brenhinol fel arsylwr pan fydd amcanion yn cael eu gosod a chynnydd yn cael ei drafod. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb mewn dealltwriaeth rhwng y Comisiwn Brenhinol, Cadw a'r timau nawdd.

Rydym wedi ystyried modelau 'nawdd' posibl eraill, ac wedi ystyried a fyddai cefnu ar y Llythyr Cylch Gwaith yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Comisiwn Brenhinol yn ei bartneriaeth â Cadw. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau defnydd priodol o arian cyhoeddus, gallai hyn arwain at roi mwy o bwyslais ar lythyr grant blynyddol gyda thargedau ac amcanion penodol a allai fod yn fwy rhagnodol ac yn fwy heriol i'w gynllunio ymlaen llaw.

**Staffio**

Fel rhan o'r gwaith i nodi meysydd ar gyfer cydweithio agosach a gosod yr amcanion 3 i 5 mlynedd ar y cyd, byddai angen i uwch arweinwyr Cadw a'r Comisiwn Brenhinol ystyried eu lefelau a'u strwythurau staffio presennol. Mae'r ddau sefydliad yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu cyfrifoldebau craidd presennol oherwydd problemau capasiti, ac ni fyddent mewn sefyllfa i gynnig cymorth ychwanegol i'w gilydd na derbyn gwaith ychwanegol ac eithrio trwy drosglwyddo cyfrifoldebau presennol i'w gilydd mewn ffordd gyfartal. Felly, mae'n bosibl y bydd angen aelodau ychwanegol o staff i sicrhau 'gwerth ychwanegol' gan y model hwn a chyflawni'r amcanion canlynol mewn perthynas â Cadw a'r Comisiwn Brenhinol:

- Y strwythur ar gyfer gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru.
- Nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau'r amgylchedd hanesyddol effeithlon yng Nghymru.
- Trefniadau ar gyfer gweithlu cynaliadwy sydd â sgiliau arbenigol wedi'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Gallai capasiti ychwanegol gynorthwyo cydweithio agosach a darparu mwy o gyfleoedd i rannu adnoddau rhwng prosiectau. Hefyd, byddai'n cefnogi datblygiad staff yn y ddau sefydliad ac yn cefnogi trosglwyddo sgiliau. Mae'n bosibl y bydd mwy o gyfleoedd i staff weithio ar draws ffiniau'r sefydliadau, darparu cyfleoedd datblygu gyrfa, rhannu dysgu a diogelu sgiliau arbenigol.

Yn dibynnu ar amlder cyfarfodydd ar y cyd rhwng y ddau Fwrdd, byddai angen adolygu ymrwymiad amser y Comisiynwyr ac aelodau'r Byrddau. Mae hyn yn debygol o fod yn wir am y Cadeiryddion gan ein bod yn argymell y dylent gyfarfod yn rheolaidd i fonitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu ar y cyd ac adolygu sut bydd y model cydweithio agosach yn gweithio.

**Defnyddwyr**

Byddai defnyddwyr yn parhau i droi at y Comisiwn Brenhinol a Cadw i gael y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar hyn o bryd. Efallai y bydd un sefydliad yn darparu rhai gwasanaethau ar ran y ddau, er enghraifft gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd neu ymholiadau am drwyddedu delweddau. Ar gyfer 'gwerth ychwanegol' gan y model hwn, byddai angen i ddefnyddwyr weld effaith prosiectau a ffrydiau gwaith ychwanegol ar y cyd. Mae goblygiadau o ran staffio a chostau yn y cyswllt hwn.

**Costau Cysylltiedig**

Byddai cyllidebau ar wahân gan y ddau sefydliad i'w rheoli fel y bo'n briodol. Byddai angen i Cadw a'r Is-adran Diwylliant gyflwyno ceisiadau gan y Comisiwn Brenhinol am unrhyw gyllid grant ychwanegol i ddarparu prosiectau. Byddai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i allu gwneud ceisiadau am grantiau allanol ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chyrff eraill.

Yn ogystal â'r cyllidebau presennol ar gyfer Cadw a'r Comisiwn Brenhinol, rydym yn rhagweld y gallai fod angen cyllid ychwanegol i sicrhau bod y model cydweithio agosach yn gallu cyflawni mwy i'r ddau sefydliad, a sector yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, o'i gymharu â chadw'r trefniadau presennol.

Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) o sut gallai'r Comisiwn Brenhinol a Cadw ddarparu gwasanaethau amgylchedd hanesyddol cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru trwy gydweithio ffurfiol.

### Cryfderau

Mae'r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn parhau i fod y tu allan i reolaeth y Llywodraeth.

Mae annibyniaeth systemau TG y Comisiwn Brenhinol y tu allan i rwydwaith Mewnrwyd Diogel y Llywodraeth yn darparu'r hyblygrwydd i ddatblygu a defnyddio'r ystod o systemau a gwasanaethau TG sy'n benodol i swyddogaethau'r Comisiwn Brenhinol.

Byddai llawer o ddefnyddwyr yn hapus pe bai'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i fod yn annibynnol, er y byddai pryderon am ei allu i gyflawni yn parhau.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn cael ei ystyried yn llais annibynnol sy'n gallu eirioli dros yr amgylchedd hanesyddol.

### Gwendidau

Mae'r ddau sefydliad yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol. Heb gyllid ychwanegol, byddai'r posibilrwydd o sefydlu prosiectau cydweithredol newydd yn gyfyngedig. Er mwyn ei roi ar waith yn llwyddiannus, byddai angen nodi capasiti uwch reolwyr yn y ddau sefydliad.

Gallai strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd mwy cymhleth fod yn feichus a chymryd llawer o amser, gan arwain o bosibl at aneffeithlonrwydd a thensiynau wrth wneud penderfyniadau a diffinio swyddogaethau.

Gallai monitro gan endidau lluosog (tîm nawdd, Comisiynwyr, Bwrdd Cadw) arwain at safbwyntiau gwahanol ar gynnydd.

### Cyfleoedd

Gall dull cydweithredol arwain at wasanaeth symlach a mwy effeithiol (fodd bynnag, gallai hyn arwain at gost ychwanegol).

Gellid ailystyried neu ehangu cydweithio i gynnwys gwasanaethau neu bartneriaethau ychwanegol, gan gynnwys aelodau eraill o Bartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol rywbryd yn y dyfodol.

Cyfleoedd i staff a gwirfoddolwyr rannu rhaglenni hyfforddi, gan fanteisio ar gryfderau ac arbenigedd y ddau sefydliad.

Mae mentrau ar y cyd yn gallu meithrin mwy o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad gan y cyhoedd, gan fanteisio ar gryfderau'r ddau sefydliad ym meysydd addysg, digwyddiadau a chyhoeddiadau.

Cyfleoedd i gydweithredu â chyrff academaidd a'r sector treftadaeth yng Nghymru ac yn rhyngwladol, gan wella cwmpas ac effaith prosiectau.

Mae annibyniaeth y Comisiwn Brenhinol yn gyfle iddo wneud cais am ffynonellau incwm o sianeli gwahanol.

### Bygythiadau

Gallai mwy o ofynion gweinyddol a'r angen am fonitro parhaus roi straen ychwanegol ar y Comisiwn Brenhinol, Cadw a'r is-adran nawdd.

Byddai ansicrwydd parhaus ynglŷn â dyfodol y Comisiwn Brenhinol yn parhau i effeithio ar forâl staff a'r gallu i recriwtio a chadw talent arbenigol.